

CardiffMet

cawr

Centre for Health, Activity
and Wellbeing Research

MetCaerdydd

cyigll

Canolfan Ymchwil ar gyfer
Iechyd, Gweithgarwch a Lles

Archwilio treftadaeth Cronfeydd Dŵr Llys-faen a Llanisien drwy weithredu cymunedol
Gwerthusiad ar gyfer Dŵr Cymru

Faaiza Bashir, Diane Crone, Rachel C. Sumner, Zofia Szekeres
10 Ionawr 2024



Archwilio treftadaeth Cronfeydd Dŵr Llys-faen a Llanisien drwy weithredu cymunedol

Gwerthusiad ar gyfer Dŵr Cymru

Faaiza Bashir, Diane Crone, Rachel C. Sumner, Zofia Szekeres | 10 Ionawr 2024

CardiffMet

cawr

Centre for Health, Activity
and Wellbeing Research

MetCaerdydd

cyigll

Canolfan Ymchwil ar gyfer
Iechyd, Gweithgarwch a Lles

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol.....	5
Cydnabyddiaeth	9
Cefndir yr astudiaeth	10
Cyflwyniad i'r astudiaeth	10
Nodau ac amcanion yr astudiaeth	10
Dull	11
Grwpiau rhanddeiliaid sy'n rhan o'r astudiaeth	11
Dŵr Cymru	11
Y Grŵp Gweithredu dros y Gronfa.....	12
Cyfeillion Cronfeydd Dŵr Caerdydd.....	12
Casglu data.....	12
Recriwtio cyfranogwyr	13
Prif ganfyddiadau (<i>themâu</i>) sy'n ymwneud â'r amcanion cyffredinol	14
Canfyddiadau mewn perthynas ag amcan 1: Rôl Dŵr Cymru o ran cefnogi hanes cymdeithasol a diwylliannol.....	14
Sut mae'r Grant Coetiroedd Cymunedol wedi cyfrannu at yr ecoleg a'r natur lleol	14
Gwirfoddoli	16
Manteision a chanlyniadau ehangach y Grant Coetiroedd Cymunedol a phrosiect cysylltiedig Cronfeydd Dŵr Llys-faen a Llanisien	21
Ffyrdd o weithio	23
Heriau.....	27
Cynlluniau ar gyfer y dyfodol	28
Canfyddiadau mewn perthynas ag amcan 2: Y mudiad cyfunol – profiadau'r Grŵp Gweithredu dros y Gronfa (RAG).....	29
Cymhellion allweddol ar gyfer aelodau'r Grŵp Gweithredu dros y Gronfa	29
Digwyddiadau allweddol ac amseroedd cofiadwy yn yr ymgyrch	31
Nodweddion yr ymgyrch.....	35
Effeithiau'r ymgyrchu ar aelodau'r pwyllgor	37
Canfyddiadau mewn perthynas ag amcan 3: Gwirfoddoli – profiadau, cymhellion a chanlyniadau	39
Cyfeillion Cronfeydd Dŵr Caerdydd (FoCR) – cefndir, cyflwyniad a chynlluniau ar gyfer y dyfodol ..	39
Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwirfoddoli, a'r hyn sy'n cymhell pobl i wirfoddoli.....	41
Gweithgareddau	43
Profiadau a manteision gwirfoddoli.....	44
Canfyddiadau gwirfoddolwyr am y system rheoli gwirfoddoli	47
Crynodeb o'r Canfyddiadau	48

Crynodeb o ganfyddiadau Amcan 1:.....48

Crynodeb o ganfyddiadau Amcan 2:.....48

Crynodeb o ganfyddiadau Amcan 3:.....48

Casgliadau’r astudiaeth.....50

Argymhellion51

Cyfeiriadau52

At ddibenion cyfeirio, defnyddiwch: Bashir, F., Crone, D., Sumner, R.C., Szekeres, T. (2024). **Archwilio treftadaeth Cronfeydd Dŵr Llys-faen a Llanisien drwy weithredu cymunedol:** Gwerthusiad ar gyfer Dŵr Cymru. Canolfan Ymchwil ar gyfer Iechyd, Gweithgarwch a Lles (CYIGLI), Prifysgol Metropolitan Caerdydd, Ionawr 2024.

Crynodeb Gweithredol

Cefndir

Mae safle Cronfa Ddŵr Llys-faen a Llanisien yn ardal bwysig ar gyfer ecoleg a bioamrywiaeth ym mhrifddinas Cymru, yn ogystal â bod yn rhan bwysig o'r dreftadaeth ddiwylliannol leol. Roedd Llywodraeth Cymru a Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol wedi ariannu'r prosiect Coetiroedd Cymunedol ar y cyd yn y gronfa ddŵr yn 2020.

Roedd yr astudiaeth hon yn archwilio treftadaeth cronfeydd dŵr Llys-faen a Llanisien, drwy weithredu cymunedol, yn y prosiect Coetiroedd Cymunedol. Mae Dŵr Cymru yn gwmni cyfleustodau nid-er-elw sy'n prydlesu ac yn rheoli'r cronfeydd dŵr. Roedd yr astudiaeth yn edrych ar sut mae gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned Dŵr Cymru yn y cronfeydd dŵr yn cefnogi iechyd a lles y gymuned leol, yn gwella mynediad at y mannau gwyrdd a glas, ac yn gwella bioamrywiaeth ar y safle.

Cynhaliwyd yr astudiaeth gan y Ganolfan Ymchwil ar gyfer Iechyd, Gweithgarwch a Lles ([CYIGLI](#)) o Brifysgol Metropolitan Caerdydd ar gyfer Dŵr Cymru. Cynhaliwyd yr astudiaeth yn ystod haf 2023 a chafodd ei chymeradwyo gan bwyllgor moeseg y Brifysgol cyn i'r gwaith o gasglu data ddiwydd (rhif cymeradwyo: Sta-7314).

Nod ac amcanion yr astudiaeth

Nod cyffredinol yr astudiaeth oedd archwilio rôl ganolog gweithredu cymunedol yn y prosiect Coetiroedd Cymunedol, a deall mwy am dreftadaeth y cronfeydd dŵr a'r coetir o safbwynt y rheini sy'n ymwneud â diogelu ac adfywio'r cronfeydd dŵr.

Roedd gan yr astudiaeth dri amcan:

- 1. Ymchwilio i rôl Dŵr Cymru o ran cefnogi hanes cymdeithasol a diwylliannol** – archwilio pwysigrwydd ac arwyddocâd cymdeithasol a diwylliannol y cronfeydd dŵr fel man gwyrdd, ardal gwarchod ar gyfer fflora a ffawna, a safle treftadaeth ar gyfer ysgolion, cymunedau ac ymwelwyr, a rôl prosiectau Dŵr Cymru i alluogi hyn.
- 2. Archwilio a deall y mudiad cyfunol** – casglu profiadau byw aelodau'r Grŵp Gweithredu dros y Gronfa (RAG) a oedd yn ymwneud â chynhaliu y gronfa ddŵr rhwng 2001 a 2015.
- 3. Archwilio gwirfoddoli** - deall profiadau, cymhellion a chanlyniadau gwirfoddolwyr sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau a hwylusir gan Gyfeillion Cronfeydd Dŵr Caerdydd, a sefydlwyd yn 2021.

Er mwyn cyflawni'r nod a'r tri amcan, buom yn ymchwilio i brofiadau pobl o dri grŵp a oedd yn ymwneud â'r gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned yng Nghronfeydd Dŵr Llys-faen a Llanisien. Roedd y rhain yn cynnwys:

- 1. Y Grŵp Gweithredu dros y Gronfa (RAG):** Roedd y RAG yn denu pobl o'r gymuned i ddiogelu'r gronfa ddŵr rhag datblygiadau tai rhwng 2001 a 2013.
- 2. Dŵr Cymru:** Staff ac aelodau cyswllt Dŵr Cymru sy'n ymwneud â'r Prosiect Coetiroedd Cymunedol yn y cronfeydd dŵr.
- 3. Cyfeillion Cronfeydd Dŵr Caerdydd (FoCR):** Pobl sydd wedi gwirfoddoli yng Nghronfa Ddŵr Llys-faen a Llanisien ers sefydlu'r grŵp Cyfeillion yn 2021.

Fe wnaethom gasglu data drwy gyfweiliadau a grwpiau ffocws gan gyfanswm o 18 o gyfranogwyr (chwe chyfranogwr o bob grŵp) rhwng mis Mai a mis Gorffennaf 2023. Fe wnaethom ddadansoddi'r data gan ddefnyddio dadansoddiad thematig (Braun a Clarke, 2019), a oedd yn darparu nifer o ganfyddiadau allweddol (themâu) sy'n cael eu crynhoi isod.

Prif ganfyddiadau (*themâu*) sy'n ymwneud â'r amcanion cyffredinol

Cyflwynir crynodeb o'r canfyddiadau, sy'n gysylltiedig â'r tri amcan, isod, ynghyd â dyfyniadau o'r grwpiau ffocws a'r cyfweiliadau i roi llais i'r rheini sy'n ymwneud â'r astudiaeth (mae enwau'r cyfranogwyr yn ffugenwau – h.y. nid eu henwau go iawn).

Amcan 1: Rôl Dŵr Cymru o ran cefnogi hanes cymdeithasol a diwylliannol

- Mae'r Prosiect Coetiroedd Cymunedol wedi cael effeithiau cadarnhaol a pharhaol ar y mannau gwyrdd a bioamrywiaeth, fel cael gwared ar rywogaethau goresgynnol ac adfer pwll dŵr.
- Mae'r canlyniadau amgylcheddol cadarnhaol wedi cael eu gwella drwy weithredu cymunedol, er enghraifft drwy gefnogi'r gwaith o glirio tir.
- Mae Dŵr Cymru wedi datblygu a chyflwyno rhaglen ymgysylltu â'r gymuned a gwirfoddolwyr effeithiol a phoblogaidd o'r gwaelod i fyny, gan gynnwys y gymuned leol.
- Mae gweithio mewn partneriaeth â chymunedau a sefydliadau lleol yn cael ei weld fel rhywbeth cadarnhaol gan staff Dŵr Cymru. Er enghraifft, roedd gweithwyr yn gweld manteision ecolegol gweithio gydag Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru a manteision iechyd a lles rhaglenni fel datblygu Llwybr Stori wrth weithio gyda'r awdurdod lleol a phrifysgol leol. Yn ogystal, soniodd cyfranogwyr am weld gwerth o gynnwys pobl a chefnogi eu datblygiad personol.
- Mae gweithgareddau Dŵr Cymru yng Nghronfa Ddŵr Llys-faen a Llanisien wedi sicrhau manteision iechyd a lles i wirfoddolwyr ar y safle. Rhagwelir y bydd gweithgareddau yn y dyfodol yn cael eu darparu ar y safle (e.e. gweithgareddau hamdden a rhagnodi cymdeithasol) a fydd yn cyfrannu ymhellach at iechyd a lles y gymuned leol ac ymwelwyr.
- Mae'r cyfleoedd gwirfoddoli, y rhaglen addysg a'r ymgysylltu â grwpiau lleol, ynghyd â gwelliannau amgylcheddol ar y safle, yn cyd-fynd ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan gynnwys 'Cymru Iachach', 'Cymru o Gymunedau Cydlynus' a 'Cymru sy'n Gyfrifol ar lefel Fyd-eang'.

Yr hyn a ddwedon nhw (dyfyniadau cefnogol):

Rwyf wedi helpu i adfywio'r ardal fach honno sydd wedi denu brogaod yn ôl i'r ardal. Efallai y bydd yn denu dyfrgwn hefyd, sy'n rhyfeddol.

Gweithiwr Dŵr Cymru, Rheolwr #2

Bu'r Prosiect Coetiroedd Cymunedol ... yn hwb mawr i'n hymdrechion, gan agor pob math o bosibiliadau i wneud cymaint mwy, a hynny mewn cyfnod byr iawn o amser, a'r syniad yw y gallem ddechrau dod â'r coetiroedd yn ôl i reolaeth weithredol, delio â rhywogaethau estron goresgynnol, a dechrau manteisio i'r eithaf ar werth bioamrywiaeth y coetir.

Gweithiwr Dŵr Cymru, Uwch Reolwr #1

... Ac yna mae'r gwirfoddolwyr hynny sydd efallai'n ei chael hi'n anodd gwneud cysylltiadau perthynol, sy'n cael trafferthion gyda'u hiechyd meddwl ac yn gyffredinol... maen nhw wedi dod yn ffrindiau, nifer ohonyn nhw, ac mae hynny'n bwysig iawn... sylwais eu bod yn cysylltu â'i gilydd bob wythnos, ac yna maen nhw'n mynd am goffi gyda'i gilydd y tu allan i'r sesiynau.

Gweithiwr Dŵr Cymru, Rheolwr Gweithredol

Mae'r gwirfoddolwyr yn teimlo eu bod yn berchen ar y safle. Does ganddyn nhw ddim perchnogaeth ond maen nhw'n teimlo mai nhw sy'n berchen ar y safle ... maen nhw eisiau bod yn rhan o hynny ... Felly, rydym ni'n cynnig ffordd iddyn nhw wneud hynny... maen nhw eisiau bod yma, maen nhw eisiau bod yn rhan ohono.

Ymgynghorydd, bywyd gwyllt / ecoleg

A'r hyn nad oeddem eisiau ei wneud o'r cychwyn cyntaf mewn unrhyw ffordd oedd dieithrio... y gymuned leol ac ymgyrch ... Fe wnaethon nhw achub y safle i bob pwrpas, ac rydym ni wedi dysgu sut i'w droi'n rhywbeth sy'n denu'r gymuned ehangach.... i ymuno gyda ni.

Gweithiwr Dŵr Cymru, Uwch Reolwr #2

A dwi'n meddwl mai dyma ble mae gweithio mewn partneriaeth wedi gwneud i mi lwyddo. Fyddwn i ddim wedi ei gyflawni pe na bawn i wedi gweithio gyda phartneriaid allanol. Felly, er enghraifft, y Llwybr Stori. Gweithio gyda phobl o Met Caerdydd a Chyngor Caerdydd a wnaeth i hynny ddigwydd.

Gweithiwr Dŵr Cymru, Rheolwr #2

Amcan 2: Y mudiad cyfunol – profiadau'r Grŵp Gweithredu dros y Gronfa (RAG)

- Mae gan yr ymgyrchwyr gysylltiadau emosiynol cryf â Chronfa Ddŵr Llys-faen a Llanisien yn seiliedig ar atgofion a hanesion personol.
- Roedd ymdeimlad ffyrnig o gyfiawnder yn cymell y grŵp.
- Arweiniwyd ymgyrch y RAG yn strategol gan bwyllgor craidd a oedd yn fedrus ac yn wybodus.
- Cafodd gweithgareddau'r RAG gefnogaeth leol gref gan y cyhoedd, y cyfryngau lleol a gwleidyddion lleol.
- Mae llwyddiant yr ymgyrch yn golygu dyfodol newydd i'r cronfeydd dŵr ac i genedlaethau fwynhau'r gofod.

Yr hyn a ddwedon nhw (dyfyniadau cefnogol):

O ran proffesiynoldeb yr ymgyrch... roedd gennym strategaeth gadarn o'r cychwyn cyntaf o ran yr hyn yr oedd angen i ni ei gyflawni, a sut yr oedd angen i ni ei gyflawni. Ac roedd hynny'n hollol eglur bob cam o'r ffordd.

Brwydro dros gyfiawnder yw'r prif amcan. Dyna yw ein pwrpas. I ni, roedd yr hyn roedden nhw'n ceisio ei wneud yn hollol anghyfiawn... mae'n waddol i genedlaethau'r dyfodol. Dyna sut yr edrychais arno o'r dechrau...

Yr unig reswm yr enillom ni oedd oherwydd y gwnaethom ni restru argloddiau'r gronfa ddŵr fel Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ar gyfer eu casgliad o ffwng glaswelltir sy'n bwysig yn rhyngwladol, ac am fod cronfa ddŵr Llanisien wedi'i chofrestru fel strwythur o bwysigrwydd hanesyddol.

Dyfyniadau gan aelodau'r RAG

Amcan 3: Gwirfoddoli – profiadau, cymhellion a chanlyniadau

1. Mae gwirfoddoli wedi rhoi profiadau cadarnhaol i'r rheini sy'n cymryd rhan.
2. Roedd y cymhellion ar gyfer gwirfoddoli yn cynnwys: llesiant personol (mwynhau'r awyr agored, chwilio am heriau newydd ar ôl ymddeol), llesiant cymdeithasol (chwilio am gysylltiadau), a chyflawni gwerthoedd personol (cyfrannu at gymdeithas, egwyddorion amgylcheddol).
3. Mae gwirfoddoli wedi arwain at lawer o fanteision, gan gynnwys: lles corfforol a meddyliol, datblygu sgiliau newydd (gwybodaeth a dealltwriaeth), a chydlyniant cymunedol (cyfeillgarwch, meithrin hunaniaeth, ymdeimlad o falchder).

Yr hyn a ddwedon nhw (dyfyniadau cefnogol):

Y prif amcan mewn gwirionedd yw annog a hwyluso cyfranogiad y gymuned yn y prosiect cronfeydd dŵr ... hyd yma, rydym wedi bod yn ymwneud â galluogi cyfranogiad, ymgysylltu â'r gymuned, rhannu gwybodaeth, felly gweithio'n adeiladol gyda Dŵr Cymru i wneud y gorau o'r adnodd er budd y gymuned...

Yn fy marn i, dylai pobl dreulio mwy o amser yn yr awyr agored ... Rydych chi'n rhan o'r amgylchedd a phan fyddwch chi'n camu i le naturiol rydych chi'n teimlo cysylltiad â'r amgylchedd a'r holl bethau ynddo, yr anifeiliaid a'r planhigion, ac mae hynny'n hyfryd iawn.

Nid dim ond y manteision corfforol, ond y manteision meddyliol. Dwi'n meddwl eich bod chi'n deall hynny... rydw i'n mwynhau bod allan ym myd natur beth bynnag, ond pan fyddwch chi'n gorffen sesiwn, rydych chi'n cael yr ymdeimlad hwnnw o gyflawniad, yr ymdeimlad eich bod chi wedi cyfrannu at rywbeth, rydych chi wedi gwneud gwahaniaeth, ac mae hynny'n gadarnhaol, yn feddyliol.

Dyfyniadau gan wirfoddolwyr Cyfeillion Cronfeydd Dŵr Caerdydd

Casgliad

Fel rhan o raglen ehangach Dŵr Cymru, mae'r Grant Coetiroedd Cymunedol wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol penodol sydd wedi bod o fudd i'r ecoleg a'r bioamrywiaeth leol, wedi darparu ased cymunedol gwerthfawr i'r gymuned leol ei fwynhau, wedi gwella iechyd a lles gwirfoddolwyr, ac mae'n cyd-fynd ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Cafodd y canlyniadau cadarnhaol ar gyfer y coetiroedd ac adfywio fflora a ffawna brodorol eu cyfoethogi drwy weithredu cymunedol. I gychwyn, gwnaed hyn drwy weithgareddau ymgyrchu'r Grŵp Gweithredu dros y Gronfa, ac yn fwy diweddar, gan wirfoddolwyr Cyfeillion Cronfeydd Dŵr Caerdydd.

Mae tystiolaeth bod y gwaith partneriaeth a'r gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned yng Nghronfa Ddŵr Llys-faen a Llanisien wedi cael eu gweld fel rhai sydd â chanlyniadau cadarnhaol ac sy'n dylanwadu ar ffyrdd o weithio, ac arferion gorau, ar safleoedd Dŵr Cymru eraill ledled Cymru.

Argymhellion

Mae sawl argymhelliad yn deillio o'r astudiaeth hon, ac mae'r rhain yn ymwneud ag arferion gwaith Dŵr Cymru, a gwirfoddoli a chyfleoedd. Cyflwynir y rhain isod.

Argymhellion – mewn perthynas ag arferion gwaith Dŵr Cymru

1. Parhau i ddefnyddio egwyddorion datblygu cynaliadwy a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i lywio gweithgareddau yn y Strategaeth Bioamrywiaeth a gweithgareddau ehangach Dŵr Cymru.
2. Parhau i ddiogelu a gwella ecoleg leol y mannau glas a gwyrdd yn safleoedd Dŵr Cymru er budd iechyd a lles pobl, bioamrywiaeth ac iechyd y blaned.
3. Parhau i ymgysylltu â phartneriaid a sefydliadau lleol i gefnogi canlyniadau cynaliadwy ar gyfer ecoleg a bioamrywiaeth safleoedd Dŵr Cymru, ac i hwyluso cyfleoedd gwirfoddoli.
4. Parhau i ddarparu arweinyddiaeth gref ar gyfer rhaglenni uchelgeisiol a newydd.
5. Cynnwys ac ymgysylltu â chymunedau lleol, gan gynnwys cyd-greu lle bo hynny'n briodol.
6. Er mwyn ehangu cyrhaeddiad rhaglenni, parhau i ddefnyddio sgiliau a gwybodaeth leol sefydliadau lleol (fel yr Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt, prifysgolion lleol, partneriaid iechyd ac eraill).
7. Sicrhau bod cymorth gweithredol uwch ar gael i staff sy'n gweithio ar safleoedd i oresgyn rhwystrau er mwyn sicrhau bod prosiectau uchelgeisiol tebyg yn cael eu cyflawni'n llwyddiannus.
8. Cynnwys polisiau a chymau gweithredu sy'n cefnogi iechyd a lles staff a gwirfoddolwyr.

Argymhellion – mewn perthynas â gwirfoddoli a chyfleoedd yn y dyfodol yng Nghronfa Ddŵr Llys-faen a Llanisien

9. Sicrhau cyfleoedd gwirfoddoli teg a hygyrch i bobl leol.
10. Ystyried cynnig cyfleoedd gwirfoddoli ar wahanol adegau ac ar wahanol ddiwrnodau er mwyn galluogi cymaint o bobl leol â phosibl i ymgysylltu â'r safle a rôl y gwirfoddolwr.
11. Mynd ati'n rhagweithiol i ymgysylltu â grwpiau ymylol (e.e. y rheini o grwpiau economaidd-gymdeithasol is, neu sy'n wynebu rhwystrau oherwydd anabledau).
12. Mynd ar drywydd cyfleoedd i sefydlu cysylltiadau â phartneriaid ieuchyd, gwasanaethau cymdeithasol a thrydydd sector lleol i ddatblygu, er enghraifft, cyfleoedd rhagnodi cymdeithasol (sy'n cael eu llywio gan y [Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Rhagnodi Cymdeithasol](#) sydd ar y gweill ledled Cymru).
13. Hyrwyddo hunaniaeth gymdeithasol ar y cyd ymysg gwirfoddolwyr i wella lles seicogymdeithasol a chydlyniant cymunedol.
14. Cynnig cymorth a hyfforddiant i bobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol neu sy'n llai hyderus gan ddefnyddio system / technoleg TeamKinetic.
15. Helpu gwirfoddolwyr i ryngweithio â'i gilydd er mwyn iddyn nhw allu cyfathrebu a gwneud cysylltiadau i greu rhwydwaith annibynnol, o bosibl drwy hyrwyddo'r swyddogaeth sgwrsio ar TeamKinetic.
16. Hyrwyddo FoCR i wella gwybodaeth, ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r grŵp a'i rôl, er mwyn ei hyrwyddo fel ased gwerthfawr i'r gymuned leol, ac i annog cyfranogiad pellach.
17. Parhau i goffáu a gwerthfawrogi'r ymgyrch lwyddiannus i achub y safle, gan y Grŵp Gweithredu dros y Gronfa.

Cydnabyddiaeth

Rydym yn ddiolchgar i'r holl gyfranogwyr a roddodd o'u hamser i gael eu cyfweld ac a rannodd eu profiadau a'u gwybodaeth werthfawr, ac am rannu eu clipiau papur newydd a'u ffotograffau.

Cefndir yr astudiaeth

Mae Dŵr Cymru yn 'gwmni nid-er-elw' sy'n darparu dŵr yfed i 1.4 miliwn o gartrefi a busnesau. Nod y Prosiect Coetiroedd Cymunedol, a lansiwyd yn 2019, ac a ariennir gan fenter Coetiroedd Cymunedol Llywodraeth Cymru a Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, yw rhoi hwb i fioamrywiaeth a gwerth cymdeithasol y coetir sy'n amgylchynu safle cronfeydd dŵr 110 erw Llys-faen a Llanisien a brynwyd gan Dŵr Cymru yn 2016. Mae'n ategu prosiect Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant (ENRaW) Dŵr Cymru, sy'n ceisio trawsnewid y safle cyfan yn ganolfan ar gyfer iechyd a lles ar yr un pryd â diogelu a gwella ei ecoleg – yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae hefyd yn cyfrannu at [Strategaeth Bioamrywiaeth Dŵr Cymru 2022](#) sy'n ceisio cynnal a gwella bioamrywiaeth a chydnerthedd ecolegol drwy holl weithgareddau'r cwmni.

Cafodd y Grant Coetiroedd Cymunedol (CWG) ei ariannu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol. Mae'r prosiect yn cyd-fynd â gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer menter Coedwig Genedlaethol Cymru. Roedd y CWG yn grant cyfalaf a oedd â'r bwriad o adfer, creu, cysylltu a rheoli coetiroedd yng Nghymru, drwy ymwneud yn helaeth â phobl leol a gweithredu cymunedol. Gofynnwyd i sefydliadau ddangos nifer o fanteision sy'n cwmparu llesiant amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol, a darparu coetiroedd hygyrch i bawb eu mwynhau ([Cronfa Treftadaeth, 2022](#)).

Roedd y Grant Coetiroedd Cymunedol yn ategu gweithgareddau presennol Dŵr Cymru, yn enwedig y gwaith drwy'r [prosiect Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant \(ENRaW\)](#). Roedd ENRaW yn darparu cyllid cyfalaf ar gyfer adeiladu llwybrau troed a seilwaith ar gyfer cuddfannau adar. Roedd y cyllid refeniw yn golygu bod Rheolwr Partneriaeth yn cael ei gyflogi i weithio gyda'r gymuned leol a datblygu grŵp gwirfoddoli. Roedd hyn hefyd yn golygu bod modd darparu hyfforddiant i wirfoddolwyr drwy'r waliau cadwraeth (waliau cerrig sych) a'r strwythur adeilad tŷ crwn. Roedd cyllid ENRaW yn golygu bod modd creu seilwaith gwirfoddoli a arweiniodd at sefydlu'r grŵp 'Cyfeillion'.

Cyflwyniad i'r astudiaeth

Roedd yr astudiaeth yn edrych ar sut mae gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned Dŵr Cymru yn y cronfeydd dŵr yn cefnogi iechyd a lles y gymuned leol, yn gwella mynediad at y mannau gwyrdd a glas, ac yn gwella bioamrywiaeth ar y safle. Cynhaliwyd yr astudiaeth gan y Ganolfan Ymchwil ar gyfer Iechyd, Gweithgarwch a Lles ([CYIGLI](#)) o Brifysgol Metropolitan Caerdydd ar gyfer Dŵr Cymru. Fe'i cynhaliwyd yn ystod haf 2023, a chyn i'r gwaith o gasglu data ddigwydd, fe'i cymeradwywyd gan bwyllgor moeseg y Brifysgol (rhif cymeradwyo: Sta-7314).

Nodau ac amcanion yr astudiaeth

Nod cyffredinol yr astudiaeth oedd archwilio i rôl ganolog gweithredu cymunedol yn y prosiect Coetiroedd Cymunedol, a deall mwy am dreftadaeth y cronfeydd dŵr a'r coetir o safbwynt y rheini sy'n ymwneud â diogelu ac adfywio'r cronfeydd dŵr.

Roedd gan yr astudiaeth dri amcan:

- 1. Ymchwilio i rôl Dŵr Cymru o ran cefnogi hanes cymdeithasol a diwylliannol** – archwilio pwysigrwydd ac arwyddocâd cymdeithasol a diwylliannol y cronfeydd dŵr fel man gwyrdd, ardal gwarchod ar gyfer fflora a ffawna, a safle treftadaeth ar gyfer ysgolion, cymunedau ac ymwelwyr, a rôl prosiectau Dŵr Cymru i alluogi hyn.
- 2. Archwilio a deall y mudiad cyfunol** – casglu profiadau byw aelodau'r Grŵp Gweithredu dros y Gronfa (RAG) a oedd yn ymwneud â chynhaliadaeth y gronfa ddŵr rhwng 2001 a 2015.
- 3. Archwilio gwirfoddoli** - deall profiadau, cymhellion a chanlyniadau gwirfoddolwyr sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau a hwylusir gan Gyfeillion Cronfeydd Dŵr Caerdydd, a sefydlwyd yn 2021.

Ein nod oedd archwilio'r pynciau canlynol yn yr astudiaeth:

- Manteision gwirfoddoli yn yr awyr agored ac ym myd natur.
- Archwilio treftadaeth leol ac asedau cymunedol.
- Cydlyniant cymunedol.
- Llinell stori cyfraniad y gwirfoddolwyr.
- Dealltwriaeth o weithredu ar y cyd dros amser.
- Manteision a chryfderau ymgysylltu cymunedol.

Er mwyn cyflawni'r nod a'r tri amcan, buom yn ymchwilio i brofiadau pobl o dri grŵp a oedd yn ymwneud â'r gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned yng Nghronfeydd Dŵr Llys-faen a Llanisien. Darperir disgrifiad o'r grwpiau hyn yn yr adran nesaf. Mae'r grwpiau'n cynnwys:

- **Y Grŵp Gweithredu dros y Gronfa (RAG):** Roedd y RAG yn denu pobl o'r gymuned i ddiogelu'r gronfa ddŵr rhag datblygiadau tai rhwng 2001 a 2013.
- **Dŵr Cymru:** Staff ac aelodau cyswllt Dŵr Cymru sy'n ymwneud â'r Prosiect Coetiroedd Cymunedol yn y cronfeydd dŵr.
- **Cyfeillion Cronfeydd Dŵr Caerdydd (FoCR):** Pobl sydd wedi gwirfoddoli yng Nghronfa Ddŵr Llys-faen a Llanisien ers sefydlu'r grŵp Cyfeillion yn 2021.

Roedd archwilio cymhellion, profiadau a safbwyntiau ymgyrchwyr, gwirfoddolwyr, a gweithwyr ac aelodau cyswllt Dŵr Cymru, yn bwysig er mwyn helpu i ddeall rôl gweithredu cymunedol yn y rhaglenni a oedd yn gwarchod y dreftadaeth leol ar y safle, drwy'r Grant Coetiroedd Cymunedol. Roedd hefyd yn bwysig rhoi'r prosiect Coetiroedd Cymunedol mewn cyd-destun o ran rhaglen ehangach Dŵr Cymru er mwyn agor y cronfeydd dŵr i'r cyhoedd, a hanes hir treftadaeth cronfeydd dŵr Llys-faen a Llanisien.

Dull

Mae ein dull o archwilio'r dreftadaeth drwy weithredu cymunedol yn y Prosiect Coetiroedd Cymunedol yng Nghronfeydd Dŵr Llys-faen a Llanisien yn seiliedig ar y gydnabyddiaeth bod (a) ystod eang o bobl a rhanddeiliaid yn rhan o stori ehangach Cronfeydd Dŵr Llys-faen a Llanisien, a (b) bod y Prosiect Coetiroedd Cymunedol yn rhan o raglen ehangach Dŵr Cymru, gan gynnwys ffrydiau cyllido eraill, sy'n cyd-fynd yn agos â'i gilydd.

O ganlyniad, fe wnaethom archwilio canlyniadau, manteision, profiadau a heriau'r bobl oedd yn rhan o'r prosiect Coetiroedd Cymunedol, a gweithgareddau perthnasol eraill yng nghronfeydd dŵr Llys-faen a Llanisien. Gan ddefnyddio cyfweiliadau a grwpiau ffocws (trafodaethau grŵp), mae hyn wedi ein galluogi i ddarparu disgrifiadau ystyrlon a manwl o brofiadau a chanlyniadau bod yn rhan o'r prosiect Coetiroedd Cymunedol, drwy dri grŵp rhanddeiliaid allweddol (gweler eu disgrifiadau isod). Mae hyn gyda'r gydnabyddiaeth bod llawer o'r manteision ecolegol, iechyd a lles a nodwyd yn dibynnu ar raglen ehangach Dŵr Cymru, fel prosiect [ENRaW](#).

Grwpiau rhanddeiliaid sy'n rhan o'r astudiaeth

Dŵr Cymru

Mae Dŵr Cymru yn gwmni nid-er-elw sy'n cyflenwi gwasanaethau dŵr yfed a [dŵr gwastraff](#) i'r rhan fwyaf o [Gymru](#) a rhannau o orllewin Lloegr sy'n ffinio â Chymru. Fel sefydliad nid-er-elw nid oes ganddo gyfranddalwyr ac felly mae unrhyw arian dros ben yn cael ei ail-fuddsoddi yn y cwmni. Mae portffolio argaeau a chronfeydd dŵr Dŵr Cymru yn cynnwys sawl atyniad i ymwelwyr, fel Cwm Elan yng nghanolbarth Cymru. Mae atyniadau i ymwelwyr yn cynnwys caffis a chanolfannau ymwelwyr, chwaraeon dŵr, cyfleusterau bioamrywiaeth, a gall cymunedau lleol elwa o ganolfannau addysg.

Y Grŵp Gweithredu dros y Gronfa

Grŵp ymgyrchu oedd y Grŵp Gweithredu dros y Gronfa (RAG) a sefydlwyd yn 2001 mewn ymateb i gynlluniau ar gyfer adeiladu datblygiad tai ar safle'r gronfa ddŵr gan Western Power Distribution. Rheddodd yr ymgyrch leol dros 12 mlynedd ac roedd yn cynnwys gwrthwynebu ceisiadau cynllunio gan Western Power, llobio gwleidyddol, mynychu cyfarfodydd cyhoeddus, codi arian a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth. Gellir cael rhagor o wybodaeth am yr ymgyrch ar wefan y grŵp:

www.llanishenrag.com. Cadeiryddion y pwyllgor: Ted Thurgood, Andrew Hill ac, o 2013 tan heddiw, Richard Cowie.

Cyfeillion Cronfeydd Dŵr Caerdydd

Sefydlwyd y grŵp 'Cyfeillion' yn 2021, a chefnogwyd y datblygiad gan RAG a Dŵr Cymru. Roedd Cyfeillion Cronfeydd Dŵr Caerdydd (FoCR) yn olynydd naturiol i RAG ac yn sefydliad annibynnol sy'n gweithio ar y cyd â Dŵr Cymru. Mae FoCR yn fudiad sy'n cael ei arwain gan wirfoddolwyr ac sy'n ceisio helpu i gadw safle Cronfeydd Dŵr Llys-faen a Llanisien fel un i'w fwynhau am genedlaethau i ddod, gan gynnwys drwy weithgareddau hamdden ac addysg. Mae ymgysylltu â'r gymuned a gwirfoddolwyr ar y safle, gyda chefnogaeth Dŵr Cymru, yn rhan allweddol o hyn. Gellir cael rhagor o wybodaeth am FoCR ar wefan y grŵp: www.friendsofcardiffreservoirs.org.

Casglu data

Casglwyd data, gan ddefnyddio cyfweiliadau a grwpiau ffocws, gan gyfanswm o 18 o gyfranogwyr a gytunodd i gymryd rhan yn y gwaith ymchwil. Cafodd y broses recriwtio ei chynnal rhwng mis Mai a mis Gorffennaf 2023, a chafodd data ei gasglu yn ystod mis Mehefin a mis Gorffennaf 2023. Cafodd yr holl gyfweiliadau a grwpiau ffocws eu recordio a'u trawsgrifio, air am air, cyn eu dadansoddi. Rhoddodd yr holl gyfranogwyr ganiatâd gwirfoddol ysgrifenedig i gymryd rhan yn y gwaith ymchwil. Cyn casglu unrhyw ddata, cafodd protocol yr astudiaeth ei adolygu a'i gymeradwyo gan bwyllgor moeseg ymchwil Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Prifysgol Metropolitan Caerdydd, (rhif cymeradwyo Sta-7314). Mae'r tabl isod yn rhoi gwybodaeth am y cyfranogwyr o'r tri grŵp rhanddeiliaid a'r dull o gasglu data.

Tabl 1 Disgrifiad o gyfranogwyr a dull casglu data.

Grŵp	Rôl	Dull	Manylion
Y Grŵp Gweithredu dros y Gronfa (n=6)	Aelodau'r Grŵp Gweithredu dros y Gronfa	Grŵp Ffocws	Wyneb yn wyneb ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd
Gweithwyr Dŵr Cymru (n=6)	i. Rheolwr #1	Grŵp Ffocws	Wyneb yn wyneb yn swyddfeydd Dŵr Cymru, Llaneirwg
	ii. Rheolwr Gweithredol		
	iii. Uwch Reolwr #1	Cyfweliad	Microsoft Teams
	iv. Rheolwr #2	Cyfweliad	Wyneb yn wyneb yng Nghronfeydd Dŵr Llys-faen a Llanisien
	v. Uwch Reolwr #2	Cyfweliad	Microsoft Teams
	vi. Ymgynghorydd (bywyd gwyllt/ecolegydd)	Cyfweliad	Microsoft Teams
Cyfeillion Cronfeydd Dŵr	Gwirfoddolwyr Cyfeillion Cronfeydd Dŵr Caerdydd (n=5)	Grŵp Ffocws	Wyneb yn wyneb ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd

Caerdydd (FoCR) (n=6)	Aelod o bwyllgor FoCR (n=1)	Cyfweliad	Wyneb yn wyneb ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd
-----------------------------	-----------------------------	-----------	---

Recriwtio cyfranogwyr

Cafodd cyfranogwyr eu recriwtio o'r tri grŵp rhanddeiliaid allweddol. Cafodd cyfranogwyr o bob grŵp eu recriwtio fel a ganlyn:

Staff Dŵr Cymru a phartneriaid y rhaglen

Nododd y prif gyswllt yn Dŵr Cymru unigolion yr ystyriwyd bod ganddynt wybodaeth a dealltwriaeth o rôl y cwmni yn y rhaglen. Roedd y rhain yn cynnwys, er enghraifft, Aelodau'r Bwrdd Gweithredol, cyngorwyr lleol, ymgynghorwyr sy'n ymwneud â'r prosiect, a staff Dŵr Cymru sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r safle ac sy'n gweithio ar y safle.

Y Grŵp Gweithredu dros y Gronfa

Cyflwynodd y prif gyswllt yn Dŵr Cymru y tîm ymchwil i Gadeirydd y Grŵp Gweithredu dros y Gronfa (RAG) a gofynnwyd iddo wedyn wahodd aelodau allweddol o'r pwyllgor a'r rheini yr ystyrir eu bod yn ymwneud yn helaeth â'r ymgyrchu i gymryd rhan mewn grŵp ffocws. Yna, cysylltodd unigolion â diddordeb yn annibynnol â'r tîm ymchwil, ac yna cawsant eu gwahodd yn ffurfiol i gymryd rhan.

Dirprwy Gadeirydd a gwirfoddolwyr Cyfeillion Cronfeydd Dŵr Caerdydd (FoCR)

Cyflwynodd y prif gyswllt yn Dŵr Cymru y tîm ymchwil i Gadeirydd Dros Dro Cyfeillion Cronfeydd Dŵr Caerdydd (FoCR) a rannodd wybodaeth am yr astudiaeth ymhlith aelodau. Yna, cysylltodd unigolion â diddordeb yn annibynnol â'r tîm ymchwil, ac yna cawsant eu gwahodd yn ffurfiol i gymryd rhan.

Cafodd aelod o bwyllgor FoCR ei gyfsweld ar wahân i'r gwirfoddolwyr am ddau reswm. Yn gyntaf, er mwyn sicrhau nad oedd gwirfoddolwyr eraill yn teimlo'n anghyfforddus yn rhannu profiadau gydag aelod o'r pwyllgor (rhag ofn y bydd unrhyw 'anghydbwysedd grym' canfyddedig); ac yn ail, rhag ofn bod yr aelod o'r pwyllgor yn dymuno rhannu gwybodaeth a phrofiadau nad ydynt efallai yn briodol i'w rhannu'n uniongyrchol â gwirfoddolwyr eraill.

Prif ganfyddiadau (*themâu*) sy'n ymwneud â'r amcanion cyffredinol

Cyflwynir crynodeb o'r canfyddiadau, sy'n gysylltiedig â'r tri amcan, isod. Cyflwynir y canfyddiadau gyda dyfyniadau o'r cyfweiliadau a'r grwpiau ffocws. Efallai bod y rhain wedi cael eu golygu i sicrhau eglurder, er enghraifft, dileu geiriau sy'n cael eu hailadrodd, ac ymadroddion fel 'umm', 'err', 'OK', 'chi'n gwybod' 'felly'. Cymerwyd gofal i sicrhau bod ystyr geiriau'r cyfranogwyr wedi'u cynnal. Pan fydd enw'n cael ei gyflwyno, mae hyn yn ffugenw i'r cyfranogwr er mwyn sicrhau ei fod yn aros yn anhysbys. Lle bo'n bosibl, rydym wedi cynnwys y rôl (swydd/rôl gwirfoddolwr), ond oherwydd bod rhai o'r cyfranogwyr yn cael eu hadnabod gan eu rôl, mewn achosion o'r fath, rydym wedi darparu disgrifiad o'u rôl yn y sefydliadau, er mwyn sicrhau eu bod yn aros yn anhysbys.

Canfyddiadau mewn perthynas ag amcan 1: Rôl Dŵr Cymru o ran cefnogi hanes cymdeithasol a diwylliannol

Daeth pum thema i'r amlwg o'r canfyddiadau sy'n ymwneud ag amcan 1. Y themâu hyn yw:

- Sut mae'r Grant Coetiroedd Cymunedol wedi cyfrannu at yr ecoleg a'r natur lleol
- Gwirfoddoli
- Manteision a chanlyniadau ehangach y Grant Coetiroedd Cymunedol a phrosiect cysylltiedig Cronfeydd Dŵr Llys-faen a Llanisien
- Ffyrdd o weithio
- Heriau

Cyflwynir y themâu a'u his-themâu isod, ac yna ceir esboniad o bob un gyda dyfyniadau cefnogol gan y cyfranogwyr (a gyflwynir mewn llythrennau *italig*).

Sut mae'r Grant Coetiroedd Cymunedol wedi cyfrannu at yr ecoleg a'r natur lleol

Mae gan y thema hon dair is-thema, sef adfywio'r safle gan gynnwys y pyllau dŵr, datblygu'r cynllun coetir gyda'r gymuned, a'i weithredu ar ôl hynny.

Adfywio'r safle

Adfywiodd Dŵr Cymru y pocedi o goetir o amgylch safle Cronfeydd Dŵr Llys-faen a Llanisien nad oedd wedi cael gofal am gyfnod sylweddol, gan roi cyfle i fioamrywiaeth ffynnu. Mae safle Cronfeydd Dŵr Llys-faen a Llanisien yn cynnwys ardaloedd o goetir hynafol sydd wedi'u sefydlu ers dros 300 o flynyddoedd; mae'n ecosystem aeddfed a sefydledig. Yn ogystal, ceir coedwigoedd eilaidd llai sefydledig. Mae lleoliad trefol y safle yn golygu bod dylanwad dynol wedi bod hefyd – cadarnhaol a negyddol.

Rhoddodd y Prosiect Coetiroedd Cymunedol y cyfle i ni gyflymu'r hyn yr oeddem eisiau ei gyflawni beth bynnag, a'r hyn yr oeddem yn gobeithio'i gyflawni dros gyfnod hir o amser yn gweithio gyda gwirfoddolwyr. Rhoddodd hwb mawr i'n hymdrechion, gan agor pob math o bosibiliadau i wneud cymaint mwy, a hynny mewn cyfnod byr iawn o amser, a'r syniad yw y gallem ddechrau dod â'r coetiroedd yn ôl i reolaeth weithredol, delio â rhywogaethau estron goresgynol, a dechrau manteisio i'r eithaf ar werth bioamrywiaeth y coetir.

[Uwch Reolwr, Dŵr Cymru]

Roedd rhywogaethau estron goresgynol (INNS) fel llawr-geirios, yn gyffredin ac yn golygu bod llawer o'r coetir yn anhygyrch "ac mewn gwirionedd roedd wedi meddiannu'r coetiroedd yma yn llwyr" (Uwch Reolwr, sy'n gweithio ar y safle). Eglurodd un o ymgynghorwyr y prosiect, er bod coetiroedd fel arfer yn hunangynhaliol o gymharu â chynefinoedd eraill, bod y llawr-geirios yn cynrychioli bygythiad i rywogaethau naturiol safle Cronfeydd Dŵr Llys-faen a Llanisien a, petai Dŵr Cymru heb ymyrryd, y byddai'r "coetiroedd ar y safle wedi diraddio" (Ymgynghorydd). Gallai hyn, hyd yn oed o fewn cyfnod byr, ledaenu i goetiroedd cyfagos eraill. Os oes gormod o'r rhywogaethau goresgynol hyn yn bresennol, nid yw rhywogaethau brodorol lleol yn gallu ffynnu, sy'n golygu bod bioamrywiaeth yn gyfyngedig;

“diolch i’r Grant Coetiroedd Cymunedol, roedd y cyllid cyfalaf yn golygu y gallem gael gwared ar y llawr-geirios” [Gweithiwr Dŵr Cymru, sy’n gweithio ar y safle].

Roedd gwaith hefyd yn bosibl, drwy’r Grant, i adfer y pyllau dŵr, a oedd wedi bod yn segur ac wedi gordyfu. Mae adfer pyllau dŵr segur yn arwain at adar a phlanhigion yn dychwelyd, gweler ffigur 1. Rhoddodd adfer yr ardaloedd hyn bleser a balchder mawr i un o reolwyr (#2) Dŵr Cymru:

Un o’r pethau rwy’n fwyaf balch ohono yw adfer y pyllau dŵr.

Dim ond un ardal fach yng Nghaerdydd ac [mae’r Grant wedi] cyfrannu at adfywio’r ardal fach honno sydd wedi denu brogaod yn ôl i’r ardal. Efallai y bydd yn denu dyfrgwn yn ôl hefyd, sy’n rhyfeddol.



Ffigur 1 - Y pwll dŵr a adferwyd, sydd wedi gwella'r fioamrywiaeth ar y safle.

Datblygu a gweithredu cynllun rheoli coetiroedd gan weithio gyda phartneriaid lleol.

Gofynnodd Dŵr Cymru i Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru, un o’r Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt rhanbarthol yng Nghymru, i ddatblygu cynllun rheoli coetiroedd. Mae cynlluniau rheoli coetiroedd yn helpu tirfeddianwyr i ddeall beth sy’n arbennig am gynefin neu safle, a’r dulliau gorau o wella bioamrywiaeth. Gall hyn gynnwys cydnabod pa addasiadau a thechnegau rheoli sy’n gallu helpu i wella’r safle, pa gamau sydd eu hangen i gyrraedd y nodau hynny, a sut gellir mesur cynnydd.

Er gwaethaf y cyfyngiadau coronafeirws a achosodd anawsterau i elfennau o’r cynllun rheoli coetiroedd, fe wnaeth Dŵr Cymru recriwtio arbenigwr coetir a ddatblygodd gynllun gweithredu ac adnodd monitro a gwerthuso i gefnogi'r gwaith parhaus. Roedd hyn yn cynnwys cynllun penodol ar gyfer gwirfoddolwyr ar y safle, fel bod ganddynt gynllun clir a chynhwysfawr i’w ddilyn.

Y peth nodedig am hyn yw, er bod Dŵr Cymru yn cynnal arolygon rheolaidd ac yn monitro ei safleoedd i fodloni rheoliadau cenedlaethol, mae fel arfer yn defnyddio cwmnïau ymgynghori mawr i gyflawni’r gofynion hyn. Fodd bynnag, yn yr achos hwn, comisiynodd Dŵr Cymru wasanaethau sefydliad anillywodraethol (NGO) amgylcheddol lleol i ddatblygu cynllun rheoli coetiroedd. Roedd Dŵr Cymru yn cydnabod bod hyn yn cynnig manteision ychwanegol, o’r wybodaeth a’r ddealltwriaeth leol ehangach sydd gan gyrrff anillywodraethol rhanbarthol, ac mae’n hyrwyddo cynaliadwyedd hefyd. O ganlyniad i’r

berthynas gadarnhaol, mae Dŵr Cymru wedi sefydlu cysylltiadau cryf gydag Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt a chyrrff anllywodraethol amgylcheddol eraill, ac maent bellach yn gweithio gyda'i gilydd ar safleoedd eraill ledled Cymru. Rhoddodd un o reolwyr Dŵr Cymru enghraifft o weithio gyda'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB) yng Nghwm Elan (safle arall Dŵr Cymru yng Nghymru).

Mae'r ffordd rydym ni wedi gweithio gyda chyrrff anllywodraethol amgylcheddol fel yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt yn Llys-faen a Llanisien wedi darparu glasbrint ar gyfer sut gallwn ni weithio gyda nhw. Ac eto, rwy'n meddwl ei bod hi'n llawer mwy cynaliadwy i ni ddefnyddio Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt lleol i wneud gwaith arolygu i ni, oherwydd eu bod nhw'n meddu ar yr arbenigedd a'r cymhwysedd angenrheidiol, yn ogystal â'r galluedd i reoli. Ac mae'n well, rwy'n meddwl, i'r gymuned leol, oherwydd ei byd hi'n fwy cynaliadwy defnyddio cyrrff anllywodraethol amgylcheddol lleol neu ranbarthol.

Rheolwr #1

Roedd gweithredu'r cynllun rheoli coetiroedd yn gwella bioamrywiaeth y coetir, trwy ddefnyddio arferion cynaliadwy. Cafodd y cynllun rheoli coetiroedd ei wreiddio yng Nghynllun Rheoli Tirwedd ac Ecoleg (LEMP) y safle, sy'n adnodd rheoli adnoddau ymarferol a byw, a ddatblygwyd gan Dŵr Cymru i reoli mynediad i'r cyhoedd ar yr un pryd â diogelu'r ardaloedd mwyaf amgylcheddol sensitif. Ystyriwyd bod y LEMP yn hanfodol er mwyn rhoi'r cynllun rheoli coetiroedd ar waith. Eglurodd un o reolwyr Dŵr Cymru y canlynol am y LEMP a'i rôl:

Rwy'n gobeithio y bydd y bobl sy'n gweithio ar y safle hwn yn ei ddarllen [y LEMP] ac yn ei ddefnyddio. Roeddwn i eisiau ei ysgrifennu, felly nid dogfen sy'n eistedd ar silff yn unig ydyw...

Mae [Enw benywaidd, Swyddog Cadwraeth Cyfoeth Naturiol Cymru] ... yn anhygoel. Roedd hi mor bragmatig. Roedd hi wastad eisiau i bethau weithio. Roedd hi bob amser yn dweud "Dydw i ddim yn hoffi dweud 'na'", a dywedodd wrthyf, "Rydw i eisiau gwybod ei bod yn ddogfen fyw", sy'n golygu y gellir ei diweddarau gan ddefnyddio egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy [SMNR], sy'n cynnwys rheoli addasol ac y bydd pethau'n addasu i'r safle a bydd pethau'n newid.

Rheolwr #2

Datblygodd Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru gynllun rheoli coetiroedd y gallai gwirfoddolwyr a'r gymuned leol ei ddefnyddio yn y dyfodol i gefnogi bioamrywiaeth a chynaliadwydd parhaus y'r adfywio:

Fe wnaethom ni hefyd ddatblygu cynlluniau gweithredu ar gyfer ymgysylltu â gwirfoddolwyr... er mwyn i'r Parcmyn a [Rheolwr Gwirfoddolwyr newydd] y safle allu cymryd... eu rhaglen waith ohono, fel eu bod yn gwybod beth roedden nhw'n ei wneud o ran pryd a beth oedd angen iddyn nhw ei fonitro, pryd a beth oedd angen iddyn nhw ei wneud. Ac fe wnaethom ni geisio blaenoriaethu hynny ychydig iddyn nhw. Ond yn amlwg, ar ôl i chi drosglwyddo'r cynllun, mater i'r tîm rheoli yw sut... i ddehongli hynny...

Ymgynghorydd, bywyd gwyllt / ecoleg

Gwirfoddoli

Mae'r thema hon yn canolbwyntio ar brofiadau staff Dŵr Cymru o ran datblygu gwirfoddoli a'u syniadau cychwynnol am y ffordd newydd hon o weithio; a sut roedd ymgysylltu â'r gymuned a gwirfoddolwyr yn cefnogi'r gwaith o reoli safle'r gronfa ddŵr yn amgylcheddol. Mae gan y thema hon dair is-thema.

Sefydlu a datblygu Grŵp Cronfeydd Dŵr Cyfeillion Caerdydd

I ddechrau, roedd angen i Dŵr Cymru sefydlu seilwaith ar gyfer rhwydwaith gwirfoddolwyr. Sefydlodd Dŵr Cymru fodel ar gyfer gweithio gyda gwirfoddolwyr ar eu hasedau, sy'n fenter newydd iddynt. Ar y pryd, roedd y rheolwr a oedd newydd ei benodi ar y safle yn cydnabod llawer o uchelgais a chefnogaeth ar gyfer rhaglen wirfoddoli gymunedol gan reolwyr Dŵr Cymru, ond cyfyngedig oedd y cynnydd o ran ei chyflwyno, oherwydd y pandemig. Fodd bynnag, roedd y pandemig a'i gyfyngiadau dilynol yn rhoi'r amser angenrheidiol iddi ddatblygu'r systemau a'r broses ar gyfer Dŵr Cymru (e.e. polisïau a fframwaith) ochr yn ochr â chefnogi'r gymuned i sefydlu Cyfeillion Cronfeydd Dŵr Caerdydd. Yma, mae'r rheolwr (#2) yn cofio'r syniadau wrth gynllunio'r hyn yr oedd angen ei wneud ar gyfer polisïau a seilwaith Dŵr Cymru:

Un o'm cwestiynau cyntaf oedd... 'Mae hynny'n iawn. Rydw i'n gallu rhedeg, rydw i'n gallu creu a rhoi rhaglenni gwirfoddoli at eu gilydd. Pwy yw eich tîm gwirfoddoli? Beth yw eich polisïau gwirfoddoli? Beth yw eich strwythur?'... 'Wel, dydyn ni ddim wedi cyrraedd mor bell â hynny'... roedd ganddynt... strategaeth gyffredinol o'r hyn yr hoffon nhw ei gyflawni ond dim byd ar waith.

Sefydlu grŵp Cyfeillion Cronfeydd Dŵr Caerdydd (FoCR) oedd un o brif allbynnau Prosiect ENRaW. Wrth i'r ymgyrchu ddod i ben, cysylltodd y RAG â Dŵr Cymru gan gynnig sefydlu grŵp 'Cyfeillion' yn 2016, a gafodd ei sefydlu yn 2021:

[Dywedodd Cadeirydd y RAG] Rydym ni'n awyddus i weithio gyda Dŵr Cymru, a bydd ein Grŵp Gweithredu yn aros yn ei le tan fydd y gronfa ddŵr yn agor. Ac rydym ni'n gwybod ei fod mewn dwylo diogel. Felly, rwy'n meddwl eu bod nhw'n gobeithio cynnal eu cyfarfod olaf yma.

Rheolwr #2

Rwy'n meddwl bod llawer o grwpiau 'Cyfeillion' yn cael eu sefydlu yn ystod ymgyrchoedd ac yn erbyn cwmnïau weithiau, felly mae hyn yn ffordd braf o ddweud 'rydym ni'n gweithio gyda chi i alluogi hynny, i weithio gyda ni'.

Rheolwr #2

Mae'r grŵp FoCR yn ddilyniant naturiol o'r grŵp RAG. Fodd bynnag, roedd hi'n bwysig bod y RAG a'r FoCR yn ddau grŵp annibynnol ar wahân. Roedd y RAG yn grŵp ymgyrchu gyda chylch gwaith a chymhelliant gwahanol, a gyflawnwyd ganddynt. Cytunodd Dŵr Cymru a'r RAG fod hyn yn ddatrysiaid da, cyn cydweithio i sefydlu FoCR. Ffurfiwyd Cyfansoddiad FoCR yn annibynnol ar Dŵr Cymru, ac mae'n parhau i weithio fel sefydliad annibynnol, mewn partneriaeth â Dŵr Cymru.

Rheolwr Gwirfoddoli Dŵr Cymru sy'n rheoli'r cynllun erbyn hyn. Mae gwirfoddolwyr yn gweithio ochr yn ochr â Pharcmyr (gweithwyr Dŵr Cymru) i helpu ar y safle, ac arbenigwyr eraill fel ecolegwyr neu sefydliadau a gomisiynir. Mantais gweithio gyda Dŵr Cymru i sefydlu'r grŵp FoCR oedd y gallai Dŵr Cymru sicrhau bod popeth yn ei le i wahodd gwirfoddolwyr yn ddiogel i'r safle (o ran iechyd a diogelwch ac yswiriant), a chefnogi'r seilwaith gwirfoddoli (fel y wefan) a rhannu syniadau. Hwylusodd y Grant Coetiroedd Cymunedol y gweithgareddau gwirfoddoli a phrynu offer a chyfarpar ar gyfer gwirfoddolwyr.

Er bod rhai pryderon cychwynnol ynghylch gweithio gyda gwirfoddolwyr, gan ei fod yn gysyniad a ffordd newydd o weithio i Dŵr Cymru, cafodd y rhain eu datrys yn gynnar yn y broses. Dywedodd un o'r cyfranogwyr, yr ymgyngorydd, ei fod wedi gweld tasgau rheoli amgylcheddol llafurus, fel clirio tir, yn cael eu cwblhau gan staff cyflogedig neu gontractwyr, ond sylweddolodd fod llawer o swyddi y gellid ymgymryd â hwy drwy raglen wirfoddoli:

..mae llawer o swyddi i bobl eu gwneud mewn coetiroedd... roedd yn gyfle braf iawn i ni edrych arno, a dweud... gallai'r Parcmyn wneud rhai o'r pethau hyn, wel, gallem ni ddod â chontractwyr i mewn i wneud y gwaith, ond mewn gwirionedd, mae'n gwneud llawer mwy o synnwyr i weld a allwch chi gael rhwydwaith o wirfoddolwyr i wneud y gwaith.

Dros amser, sylweddolwyd bod llawer o gyd-fanteision i Dŵr Cymru a'r gwirfoddolwyr. Mwynhaodd y gwirfoddolwyr y gwaith hwn ac nid oeddent yn ei ystyried yn ecsbloetiol, ac mewn gwirionedd roedd yn darparu manteision lles iddynt, a chyfle i fod yn rhan o rywbeth arbennig. O ganlyniad i hyn, daeth yr elfen lles yn ffocws gweithredol wrth gynllunio a chyflwyno'r sesiynau gwirfoddoli:

..roedd hyn yn gwbl wahanol oherwydd roedd yn ymwneud â'r ffocws, nid ar orffen y gwaith yn unig... ond roedd yn ymwneud â lles y bobl a oedd yno a'r ymdrech gydweithredol hon... roedd rhaid i mi addasu fy meddylfryd rhyw ychydig... ond, ar ôl i mi fynd i'r afael â'r hyn roedden ni'n ei wneud, roedd yn wych oherwydd roedd y ffocws ar y bobl, nid o reidrwydd ar y dasg dan sylw... ac rwy'n meddwl ei fod yn wych oherwydd, iddyn nhw ac i ni, roedd yn ganlyniad boddhaus iawn...

Rheolwr Gweithredol

Prosesau a manteision gwirfoddoli

Mae gwirfoddolwyr (aelodau o Gyfeillion Cronfeydd Dŵr Caerdydd) yn archebu lle ar y cyfleoedd gwirfoddoli drwy system ar-lein (TeamKinetic). Adeg ysgrifennu hwn, ychydig cyn agoriad swyddogol y safle i'r cyhoedd, roedd slot bore Gwener rheolaidd yn denu mynychwyr rheolaidd, ac roedd rhestr aros i'r rheiny oedd eisiau gwirfoddoli.

Dyma'r manteision a nodwyd o wirfoddoli gan weithwyr Dŵr Cymru:

- Gwneud ffrindiau, rhannu pryderon am fywyd a chymorth cymdeithasol.
- Datblygu cyfeillgarwch ystyrion sy'n gynaliadwy oddi ar y safle.
- Darganfod harddwch go iawn byd natur.
- Cyfleoedd i fynd allan o'r tŷ a theimlo'n llai ynysig.
- Bod yn gynhyrchiol a helpu gyda gweithgareddau cadwraeth.
- Balchder o helpu ar safle proffil uchel, h.y. i rai, mae'n fwy arbennig gwarchod safle SoDdGA nag, er enghraifft, casglu sbwriel yn y parc lleol.
- Gwell iechyd meddwl a lles – yn enwedig ymhlith y rheini sy'n cael trafferth gyda sgiliau perthynol.
- Hyfforddiant a sgiliau.
- Pwrpas a chymhelliant newydd.
- Meithrin hyder.

Mae'r dyfyniadau isod, gan un o weithwyr Dŵr Cymru (Rheolwr Gweithredol) sy'n gweithio'n agos gyda'r FoCR, yn pwysleisio'r manteision hyn:

Maen nhw wrth eu boddau. Maen nhw'n dod yn ôl dro ar ôl tro, ac rydw i wedi gallu... sefydlu perthynas agos iawn gyda llawer ohonynt, ac rydym ni wedi sgwrsio. Rydym ni wedi cael llwyfan lle roedden ni'n gallu siarad am fywyd a phroblemau ac rydym ni wedi rhannu hanesion a phrofiadau cyffredin, ac rydw i'n siarad â llawer ohonyn nhw, ac maen nhw i gyd yn dod o wahanol ddemograffeg a chefnidiroedd. Ond yr un peth sydd gan bob un ohonynt yn gyffredin yw eu bod yn caru gwirfoddoli.

..maen nhw'n dweud yr un peth. Maen nhw'n gallu mynd allan o'r tŷ felly p'un a ydyn nhw'n gweithio gartref neu ble bynnag... maen nhw'n gallu gadael eu pedair wal ac

maen nhw'n gallu dod i safle o harddwch yn yr awyr iach a gweithio ar rywbeth cydweithredol sy'n arwain at ganlyniadau corfforol, diriaethol a llwyddiannus.

..Ac yna efallai y bydd y rheini sy'n ei chael hi'n anodd gwneud cysylltiadau perthynol neu sy'n cael trafferth gydag iechyd meddwl... mae llawer ohonyn nhw wir wedi sefydlu cyfeillgarwch, ac mae hynny'n bwysig iawn... Sylwais eu bod yn cysylltu â'i gilydd bob wythnos, ac yna maen nhw'n mynd am goffi gyda'i gilydd y tu allan i'r sesiynau... mae'r holl beth yn heintus...

Un o uchafbwyntiau penodol y grŵp FoCR oedd gweld un gwirfoddolwr yn ennill digon o sgiliau a hyder i gael ei recriwtio fel Parcmon Dŵr Cymru ar y safle:

Wrth sôn am lwyddiannau... mae un o'n gwirfoddolwyr rheolaidd... yn astudio agweddau amgylcheddol yn rhan-amser, ac erbyn hyn mae hi wedi dechrau gweithio fel parcmon cyflogedig... fel rhan o dîm y Parcmyr... Mae hi'n mynd i fod yn ased go iawn i'n tîm.

Rheolwr #1

Manteision ymgysylltu â gwirfoddolwyr

Nodwyd nifer o fanteision gan weithwyr ac aelodau cyswllt Dŵr Cymru. Roedd y rhain yn cynnwys gwneud achos amgylcheddol, achos busnes a'u recriwtio fel llysgenhadon.

Achos amgylcheddol

Disgrifiodd gweithwyr ac aelodau cyswllt Dŵr Cymru yr achos amgylcheddol dros ymgysylltu â gwirfoddolwyr yn y coetiroedd mewn pedair ardal. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- Cymuned leol sydd wedi'i huwchsgilio ac sy'n gallu defnyddio sgiliau rheoli amgylcheddol yn y dyfodol ar y safle, neu safleoedd lleol eraill: *"sgiliau monitro, rheoli coetiroedd... bondocio... mae amrywiaeth eang o sgiliau ymarferol... byddent yn elwa ohonynt, gan ddod yn gymuned fwy gwybodus ac ymroddedig o ganlyniad i'r gweithgaredd gwirfoddoli hwnnw".* Ymgynghorydd, bywyd gwyllt / ecoleg
- Annog cysylltioldeb a pherchnogaeth rhwng gwirfoddolwyr a'r coetiroedd: *"Mae'n rhoi mwy o ymdeimlad o berchnogaeth i gymunedau lleol o'r gofod gwyrdd a glas sydd ar garreg eu drws. Oes, mae llawer iawn o ddiddordeb. Yn Llys-faen a Llanisien, rydym wedi dangos bod aelodau o'r gymuned eisiau gwneud cyfraniad go iawn".* Ymgynghorydd, bywyd gwyllt / ecoleg
- Addysgu pobl am yr ecoleg a chefnogi ymddygiad cadarnhaol i ddiogelu'r safle, yn ogystal â meithrin ymddiriedaeth rhwng tîrfeddianwyr a chymunedau:

Gwelsom ei fod yn gyfle gwych i ymgysylltu â'r gymuned leol, eu haddysgu, fel y dywedaso, i'w cael nhw i ddeall y manylion bach o ran rhai o'r pethau pwysig oherwydd un o'r pethau a nodwyd yn y cynllun rheoli oedd y byddai'n rhaid dymchwel llawer iawn o goed... felly roedd hi'n bwysig gwneud yn siŵr bod y gwirfoddolwyr yn rhan o hynny, er mwyn sicrhau pan fyddant yn gweld hynny, a phan fyddai'r gymuned leol yn gweld canlyniadau'r gwaith rheoli hwnnw, ni fyddent yn gofyn "beth ddigwyddodd i'r holl goed?" Roedd hi'n bwysig eu bod nhw'n deall bod hynny'n angenrheidiol, er mwyn sicrhau dyfodol tymor hir y coed.

Ymgynghorydd, bywyd gwyllt / ecoleg

- Cynnwys pobl leol a'u gwahodd i'r safle cyn iddo gael ei agor i'r cyhoedd. Roedd hyn yn galluogi'r gymuned leol i ddeall pam roedd penderfyniadau'n cael eu gwneud, yn hytrach na rhoi gwybod iddynt pan fyddai rhywbeth eisoes wedi digwydd. Yn yr ystyr hwn, cafodd y gymuned leol eu tywys 'ar y daith' gyda Dŵr Cymru:

Fe wnaethom ni gynnal wythnos ymgysylltu â'r gymuned, felly fe wnaethom ni wahodd ysgolion cynradd ... ac fe gerddais o amgylch y safle gyda gwahanol grwpiau ... gan esbonio beth roeddem ni wedi bod yn ei wneud ac egluro pam ein bod ni wedi bod yn ei wneud... Rwy'n meddwl nad yw pobl wir yn gwybod beth sy'n digwydd nes iddyn nhw ei weld a'u bod nhw'n gallu ei ddeall... Mae cael y cyfle i dywys pobl ar hyd y daith a rhoi ychydig o wybodaeth iddyn nhw ... mae llawer o bobl sydd bellach yn rhan o'r gymuned... rydym ni wedi gallu esbonio'r neges ecoleg iddynt er mwyn sicrhau eu bod nhw'n deall ei phwysigrwydd.

Rheolwr #2

Achos busnes

Roedd cyfranogwyr yn cydnabod bod ymgysylltu â gwirfoddolwyr a chymunedau (yn enwedig yn gynnar mewn prosiect) yn fuddiol i'r cwmni o safbwynt busnes, o ran perthnasoedd cryfach â chwsmeriaid a gwerth ariannol.

On ddiwedd y dydd, faint o werth, a gwerth gwirioneddol, rydych chi'n ei gael ohono drwy amser gwirfoddolwyr. Nid yw'n ddibwys y byddai'r gwaith hwnnw'n cael ei wneud gan y busnes... mae'n llawer mwy na chost niwtral yn unig. Mewn gwirionedd, mae'n golygu cyflwyno cymorth ariannol na fyddai ar gael fel arall, yn ogystal â'r manteision cymunedol ac amgylcheddol. Mae'n achos busnes sy'n pentyrru mewn ffordd eithaf cryf.

Uwch Reolwr #2

Mae hyn yn bwysig oherwydd gall achos busnes dros ymgysylltu â'r gymuned chwarae rhan yn y gwaith o ennyn cefnogaeth ac ymrwymiad hirdymor gan uwch reolwyr mewn sefydliadau, ac mae'n dangos sut y gall gwirfoddoli fod o fudd i gwmnïau a sefydliadau ac annog eraill i gymryd camau tebyg.

Dyna'r peth allweddol, ymgysylltu parhaus, cymunedau lleol ... mae hynny'n rhywbeth rydym ni'n dysgu ohono, ac yn ei gyflwyno i safleoedd eraill.

Uwch Reolwr #2

Gwirfoddolwyr fel llysgenhadon

Mae addysg a negeseuon yn fanteision ac yn ganlyniadau allweddol o wirfoddoli sy'n cefnogi ac yn gwella dealltwriaeth unigolyn, a gallant chwarae rhan allweddol iddynt, fel llysgenhadon y safle. Mae lledaenu'r negeseuon yn anffurfiol i ffrindiau a theulu yn y gymuned ynghylch sut mae'r ecoleg yn cael ei gwarchod, er enghraifft, effaith rhywogaethau estron goresgynnol neu sut y gallai cŵn ar y safle fygwth y ffwng cap cwyr a statws SoDdGA'r safle, yn rôl y mae'r gwirfoddolwyr yn ei chwarae yn y gymuned leol.

Rydym ni'n addysgu i'r gorau o'n gallu, ac wedyn mae'r neges yn lledaenu ar lafar gwlad ... mewn ffordd hollol wahanol i gyfathrebiadau swyddogol, oherwydd eu bod nhw [y gwirfoddolwyr] yn ofalgar ac yn cymryd perchnogaeth. Maen nhw'n angerddol ac yn dweud wrth eu ffrindiau, eu teuluoedd a'u cymdogion. 'Ni ddylech chi wneud hynny, mae hynny'n anghywir. Ydych chi'n sylweddoli bod hyn yn cael effaith andwyol ar yr amgylchedd?' A bydd llawer o bobl yn teimlo cywilydd am

hynny, ac mae'n deillio o anwybodaeth pur, ond byddant yn parhau fel hyn, a chyn gynted ag y byddant yn cael gwybod, byddant yn newid eu hymddygiad dros nos.

Rheolwr Gweithredol



Ffigur 2 – Mae negeseuon pwysig am ffyngau cap cwyr a gwybodaeth arall sydd â'r nod o addysgu ymwelwyr er mwyn gwarchod ecoleg a bioamrywiaeth y safle yn cael eu rhannu ar arwyddion gan Dŵr Cymru, ond hefyd yn anffurfiol gan wirfoddolwyr ac aelodau o'r gymuned.

Manteision a chanlyniadau ehangach y Grant Coetiroedd Cymunedol a phrosiect cysylltiedig Cronfeydd Dŵr Llys-faen a Llanisien

Nodwyd nifer o fanteision a chanlyniadau a nodwyd yn ystod y cyfweiliadau a'r grwpiau ffocws. Roedd y rhain yn cynnwys iechyd a lles, gweithredu cymunedol, yr effaith ar newid yn yr hinsawdd a llygredd, ffyrdd o weithio i Dŵr Cymru, a'r prosiect yng nghyd-destun polisi Llywodraeth Cymru. Mae'r thema hon yn cynnwys pedair is-thema: manteision iechyd a lles; gweithredu cymunedol; cefnogi'r agenda hinsawdd; a chyd-destun y prosiect ym mholisi ehangach Llywodraeth Cymru.

Manteision iechyd a lles

Roedd rhaglen ehangach Dŵr Cymru i adfywio safle'r gronfa ddŵr a'i gwneud yn hygyrch i'r gymuned leol yn cael ei hystyried yn "*amhrisiadwy*" o ran galluogi mwy o fynediad at fannau gwyrdd a glas lleol y gall cymunedau eu mwynhau:

... mae gwerth iechyd cyhoeddus... rydych chi'n edrych i'r dyfodol... yn edrych ar y prosiect coetir ei hun a'r manteision iechyd o allu mynd o ... ardal drefol eithaf prysur i ardal sydd bellach yn llawer mwy agored a chroesawgar, ac yn rhyw fath o werddon o lonyddwch Ac mae'r gwerth hwnnw'n sylweddol.

Uwch Reolwr #2

Nodwyd hefyd bod manteision i weithgareddau yn y Ganolfan Ymwelwyr, drwy'r hyb addysg iechyd a lles, fel ymwybyddiaeth iechyd meddwl, a phethau eraill sy'n cael eu cynllunio ar gyfer y dyfodol:

... rydym ni'n gobeithio ... darparu cyfleoedd ar gyfer rhagnodi cymdeithasol ar ôl i ni agor, felly rydym ni'n gweld ... y cyfle i weithio gydag asiantaethau atgyfeirio i ragnodi gweithgareddau chwaraeon dŵr, teithiau cerdded iechyd o amgylch y cronfeydd dŵr a gwirfoddoli.

Uwch Reolwr #1

Gweithredu cymunedol

Mae safle cronfa ddŵr Llys-faen a Llanisien yn wahanol i safleoedd eraill Dŵr Cymru gan ei fod wedi'i leoli mewn ardal drefol hynod o boblog. Mae Dŵr Cymru wedi gweithio gyda'r Grŵp Gweithredu dros y Gronfa drwy gydol y prosiect hwn i sicrhau canlyniadau cadarnhaol, ac mae hyn, ynghyd â gweithgareddau gwirfoddoli ac ymgysylltu â'r gymuned eraill, wedi galluogi Dŵr Cymru i gryfhau ei ymgysylltiad â phobl leol a'u cymunedau.

A'r hyn nad oedden ni eisiau ei wneud o'r cychwyn cyntaf mewn unrhyw ffordd oedd dieithrio pobl ... y gymuned leol ... Fe wnaeth y gymuned, i bob pwrpas, achub y safle, ac rydym ni wedi ei droi'n rhywbeth sy'n dod â'r gymuned ehangach at ei gilydd, i wneud yn siŵr eu bod yn dod gyda ni ar hyd y daith, ac yn gwneud yn siŵr ein bod ni'n gwneud pethau mewn partneriaeth, yn hytrach nac yn erbyn ein gilydd.

Uwch Reolwr #2

Mae hefyd wedi bod yn gyfle i Dŵr Cymru gael cydnabyddiaeth a chyhoeddusrwydd am y gwaith cadarnhaol y maent wedi ymrwymo iddo. Mae Dŵr Cymru yn buddsoddi llawer iawn o adnoddau i ychwanegu gwerth at safleoedd lleol, fel datblygu seilwaith, ond nid yw llawer o'r gwaith hwnnw'n cael "sylw haeddiannol" (dyfyniad gan yr Uwch Reolwr #2). I'r gwrthwyneb, mae prosiect Llys-faen a Llanisien wedi amlygu'r manteision amgylcheddol, cymdeithasol ac iechyd a lles i'r gymuned leol, mewn ffordd gyhoeddus iawn, ar safle sydd â gwerth hanesyddol a diwylliannol sylweddol. Mae hyn wedi cael ei gydnabod ar lefel uwch yn Dŵr Cymru, gan ei fod yn hwyluso "sgwrs gwbl wahanol i'r arfer gyda chwsmeriaid" ac yn groes i safleoedd eraill lle mae beirniadaeth a chraffu yn cael eu lleisio gan y gymuned leol:

...mae rhai prosiectau rydym ni'n eu gwneud, lle rydym ni'n gallu cyfeirio at welliannau amgylcheddol, gwelliannau cymunedol, gwelliannau hamdden, yr holl bethau hyn, gan nad yw pob prosiect wedi'i ddylunio i wneud y pethau hynny ... felly mae cael y cyfle i wneud rhywbeth ar y raddfa hon, sydd mor bwysig i'r gymuned, yn caniatáu i chi gael sgwrs gwbl wahanol â'r cwsmeriaid.

Uwch Reolwr #2

Cefnogi'r agenda newid yn yr hinsawdd

Mae'r ENRaW a'r Grantiau Coetiroedd Cymunedol wedi gwarchod storfa garbon bwysig (glaswelltir ffwng cap cwyr a choetir). Drwy wneud hyn, maent wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr at ansawdd yr aer yn yr ardal:

Un o'r rhesymau pam ein bod wedi llwyddo i wneud cais am y Grantiau Coetiroedd Cymunedol yw bod llawer o'r cyllid wedi'i anelu at ardaloedd difreintiedig...Fe wnes i ddadansoddi'r cyfan, ac mae'r ardal hon yn un o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran llygredd aer ... ac mae cael pobl i ddeall bod y ffwng cap cwyr yn ddalfa garbon, [a bod gwella'r] coetiroedd yn helpu eich llesiant iechyd ... yn ogystal â'r aer yn yr ardal hon.

Rheolwr #2

Cyd-destun y prosiect ym mholisi ehangach Llywodraeth Cymru

Datblygwyd y prosiect yn strategol i sicrhau y byddai'n cyflawni amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 er budd cenedlaethau'r dyfodol drwy roi strwythurau ac arferion gweithio

cynaliadwy ar waith. Er enghraifft, datblygu'r cynllun rheoli coetiroedd a oedd yn cynnwys datblygu'r grŵp 'Cyfeillion':

Rwy'n gweld y weledigaeth, ond rwy'n gwybod bod yn rhaid i chi fynd yn ôl 10 cam i roi'r strwythurau ar waith i wneud yn siŵr ei bod yn weledigaeth gynaliadwy. Rwy'n credu os ydych chi'n mynd ar drywydd y weledigaeth yn unig, yna gallai chwalu ... Mae'n rhaid i chi ei wneud yn gynaliadwy. Nid fy ngweledigaeth i oedd creu'r grŵp 'Cyfeillion', ond fe ddwedais 'lawn, sut alla i wneud i hynny i ddigwydd mewn ffordd gynaliadwy?'

Rheolwr #2

Roedd cyfranogwr arall yn cydnabod bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) wedi helpu Dŵr Cymru i gynllunio'r gweithgareddau yng Nghronfa Ddŵr Llys-faen a Llanisien mewn ffordd a fyddai o fudd i gymunedau o ran llesiant:

Mae prosiect Llys-faen a Llanisien yn enghraifft wych o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn dylanwadu ar faterion cynllunio lleol oherwydd, o'r cychwyn cyntaf, ein dyhead, ein gweledigaeth, oedd creu hyb ar gyfer iechyd a lles, a rhoi lles wrth galon popeth a wnawn yno.

Roedd cydnabyddiaeth hefyd o'i effaith bosibl ar yr economi o ran cyflogaeth a chynnydd mewn gweithgarwch economaidd, a hefyd o ran yr amgylchedd, yn y tymor hir:

..Ond o ran cynaliadwyedd, mae gennym fodel busnes rydym ni wedi'i ddatblygu ... tua 45-50 o staff y byddwn nh'i'n eu penodi ar y safle hwnnw, felly nid yw'n ddatblygiad ansylweddol o ran creu swyddi, mae'n amlwg y bydd gwariant ymwelwyr ar y safle, a bydd yr effaith ehangach drwy'r lluosydd twristiaeth drwy gadwyni cyflenwi neu'n uniongyrchol ... yn cynyddu'r budd economaidd. Bydd hefyd yn creu manteision llesiant drwy gynnig mynediad at fannau gwyrdd a glas o ansawdd uchel, a'r gweithgareddau y byddwn yn eu cynnig, a dylent apelio at amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd gwahanol a bydd yn annog llawer o bobl i ymweld...

Uwch Reolwr #1

Ffyrdd o weithio

Trafododd y cyfranogwyr effaith y prosiect ar ffyrdd o weithio, ac yn wir sut y newidiodd neu addaswyd y rhain i ddiwallu anghenion y prosiect, a hefyd y ffyrdd o weithio a wnaeth y prosiect yn llwyddiant. Mae gan y thema hon bedair is-thema: rolau allweddol i hwyluso llwyddiant, gweithio mewn partneriaeth ac ymgysylltu, ffyrdd o weithio yn y dyfodol a chydbwysio rhwymedigaethau.

Rolau allweddol i hwyluso llwyddiant

Roedd rolau allweddol, fel rôl Rheolwr #2, yn cael eu hystyried yn hanfodol i llwyddiant y prosiect. Roedd y cyfranogwyr eraill yn cydnabod gweledigaeth ac agwedd 'gallu gwneud' yr unigolyn yn y rôl honno:

Rwy'n credu bod gwerth cael rhywun ... sy'n gyfrifol am y prosiect, a oedd yn barod i estyn allan, ac nid fel ecolegydd... ond a oedd yn hapus iawn i fanteisio ar arbenigedd allanol... Rwy'n credu bod hynny'n wirioneddol bwysig i llwyddiant y prosiect ... cael rhywun a oedd yn barod i yrru hynny a gweithio gyda ni ... ni allaf orbwysleisio'r rôl a chwaraeodd yn y prosiect hwn. Roedd yn bwysig iawn cael rhywun fel hynny yno.

Ymgynghorydd, bywyd gwyllt / ecoleg

Fodd bynnag, roedd effeithiau andwyol o fod yn rhan mor hanfodol o'r prosiect:

... ar adegau, mae'r prosiect hwn wedi teimlo yn feichus tu hwnt, ac rydw i wedi clywed un person yn dweud... rydw i wedi clywed y term 'iechyd a lles', mae'n teimlo fel bod iechyd a lles pawb, wel, mae'r prosiect ... wedi cael effaith arna i... faint o waith rydw i wedi'i wneud... mae wedi effeithio ar fy nheulu hefyd.

Rheolwr #2

Gweithio mewn partneriaeth ac ymgysylltu â phartneriaid lleol newydd

Mae ymgysylltu'n llwyddiannus â phartneriaid lleol newydd, fel yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt lleol, wedi arwain at ymddiriedolaeth a hyder i Dŵr Cymru a phartneriaid lleol posibl archwilio rhagor o ymgysylltu gyda'i gilydd, er enghraifft, ar safleoedd eraill. Mae Prosiect Cronfa Ddŵr Llys-faen a Llanisien wedi galluogi model diriaethol o weithio mewn partneriaeth y gellir ei efelychu mewn mannau eraill:

Ac mae [sefydliadau lleol] wedi gallu gweld y gwahaniaeth rydym ni wedi'i wneud ac mae hynny wedi creu'r diwylliant cadarnhaol hwnnw gyda'r grwpiau hynny. Yna, wrth i ni edrych ar ein safle yn Llandegfedd, a gafodd ei feirniadu'n hallt ... Roeddwn i'n gallu siarad â Phrif Swyddog Gweithredol yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt lleol a thrafod sut 'rydym ni eisiau gweithio gyda chi... gadewch i ni ddefnyddio'r un model rydym ni wedi ei ddefnyddio yn Llys-faen a Llanisien'.

Rheolwr #2

Roedd y gwaith partneriaeth hwn yn ei gwneud yn bosibl cyflawni nodau'r prosiect. Darparwyd nifer o enghreifftiau, cyflwynir dwy yma:

(i) Y Llwybrau stori

Roedd yr enghraifft hon yn cynnwys partneriaeth rhwng ysgol leol, y gronfa ddŵr a'r brifysgol gyfagos, lle bu darlithydd addysg gynradd a darlithydd ysgrifennu creadigol yn gweithio gyda phlant yn yr ysgol gynradd leol i ddatblygu stori yn seiliedig ar y coetiroedd a adferwyd. Roedd Llwybrau coetir wedi cael eu hadeiladu gan wirfoddolwyr a cherfluniau pren wedi'u codi i helpu i nodi'r Llwybr stori, sy'n galluogi ymwelwyr i glywed y stori 5-rhan drwy godau QR ar y cerfluniau (gweler ffigur 3), a gomisiynwyd ar gyfer y prosiect.

A dwi'n meddwl mai dyma ble mae gweithio mewn partneriaeth wedi gwneud i ni lwyddo. Fyddwn i ddim wedi cyflawni'r gwaith pe na bawn i wedi gweithio gyda phartneriaid allanol. Er enghraifft, datblygwyd y Llwybr Stori trwy weithio gyda phobl o Met Caerdydd a Chyngor Caerdydd... Mae nifer o Llwybrau Stori o amgylch Caerdydd. Mae gwahanol Llwybrau Stori wedi'u rhannu'n ddarnau ac mae'r cyfan yn rhan o fenter Dinasoedd sy'n Gyfeillgar i Blant y Cenhedloedd Unedig.

Rheolwr #2



Ffigur 3 – Cerflun sy'n rhan o'r 'Llwybr Stori', llwybr a ddatblygwyd ar y cyd â phartneriaid, gan gynnwys plant ysgol lleol, Prifysgol Metropolitan Caerdydd a Chyngor Caerdydd.

(ii) *Cynllun Llysgenhadon Diogelwch Dŵr*

Datblygwyd yr ail enghraifft hon o ddiwallu anghenion y prosiect drwy weithio mewn partneriaeth â Rheolwr Rhaglen Dŵr rhaglen chwaraeon Prifysgol Metropolitan Caerdydd. Fe'i cynlluniwyd i godi ymwybyddiaeth o beryglon nofio mewn cronfeydd dŵr a dŵr agored, a'r risg o foddï, wedi'i dargedu at bobl ifanc.

...mae cyfoedion yn cael eu hyfforddi i wybod beth i'w wneud os ydyn nhw'n gweld rhywun mewn trafferth ... mae pobl ifanc yn cael eu hyfforddi i wybod beth i'w wneud. Mae rhai yn lledaenu'r neges diogelwch dŵr i'w cyfoedion...

Rheolwr #2

Dylanwadu ar y dyfodol – ymgysylltu â'r gymuned a ffyrdd o weithio

Cydnabuwyd bod y prosiect yn llwyddiannus i Dŵr Cymru o ran cynyddu eu dealltwriaeth, eu gwybodaeth, eu profiad a'u hyder o ran ymgysylltu â'r gymuned. Drwy'r profiad hwn, cydnabuwyd sut mae hyn wedi dylanwadu ar eu gwaith, y bydd yn llywio ffyrdd o weithio yn y dyfodol, ac mae wedi cefnogi eu ffordd o weithio, gan gynnwys ar lefel strategol:

..Ar lefel strategol ... mae wedi dylanwadu ar y ffordd rydym ni'n gweithio. Mae wedi rhoi mwy o hyder i ni wneud mwy o'r math hwn o beth, ac mae'r manteision, o ran cymunedau lleol ... mae diddordeb gwirioneddol, mae pobl eisïau cyfrannu, maen nhw eisïau bod yn rhan o rywbeth. Maen nhw eisïau gwneud gwahaniaeth ac rydym ni'n dechrau rhoi mwy a mwy o gyfleoedd i bobl weithio gyda ni i wneud hynny i ddigwydd.

Uwch Reolwr #1

Roedd uwch staff hefyd yn ymwybodol o newid sylweddol mewn arferion gwaith, o ymgynghori ac ymgysylltu i ddull mwy cyd-gynhyrchiol:

Ac rwy'n meddwl bod y ffordd rydym ni wedi ymgysylltu â chymunedau wedi bod yn wahanol drwy'r Prosiect Coetiroedd Cymunedol a'r prosiect ENRaW... mae wedi cynnwys mwy o gyd-greu, yn hytrach na Dŵr Cymru yn arwain ac yn cyfathrebu'r hyn rydym ni'n ei wneud... rydym ni wedi mynd ag ef i lefel wahanol. Rydw i'n meddwl ein bod ni bob amser wedi ymgysylltu â'r gymuned fel sefydliad ... Ond yn y gorffennol rydym ni wedi bod yn dweud wrth bobl beth rydym ni'n ei wneud, yn hytrach na

gweithio gyda nhw i greu gweledigaeth ar y cyd ac i gyd-greu a chyflawni gwelliannau.

Uwch Reolwr #1

Mae prosiect cronfeydd dŵr Llys-faen a Llanisien, a datblygiad polisiâu newydd fel y polisi gwirfoddoli hefyd wedi dylanwadu ar arferion gwaith ar draws safleoedd eraill, er enghraifft drwy fabwysiadu'r polisi hwn ar safleoedd eraill Dŵr Cymru:

...Llys-faen a Llanisien, ac roedd yr ail safle yng ngogledd Cymru oherwydd y prosiect gweilch. Ond nawr dyma'r Polisi Gwirfoddoli ar draws pob un o'n safleoedd, ac mae pob un o'r Parcmyn yn teimlo'n gyffrous iawn am weithio gyda gwirfoddolwyr.

Rheolwr #2

Cydbwyso rhwymedigaethau

Trafododd y cyfranogwyr y ffordd mae Dŵr Cymru yn cydbwyso rolau yn y gymuned, er enghraifft bod yn gwmni cyfleustodau ond bod ganddynt rôl i'w chwarae hefyd o ran diogelu a gwella'r amgylchedd a'r effaith y gall hyn ei chael ar gymunedau ac ar fannau gwyrdd a glas. Roedd ymrwymiad bod Dŵr Cymru yn 'Gymreig ac yn rhan o'r gymuned' ac yn cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd ond, fel cwmni cyfleustodau, gallent fod yn ymwybodol o risg i enw da mewn perthynas â beirniadaeth gyhoeddus a'u prif rôl o ran cyflenwi dŵr a thrin dŵr gwastraff.

Rwy'n credu y bydd hi bob amser yn heriol oherwydd mae'n rhaid i ni ddiwallu'r anghenion hynny. Yr hyn sydd wedi helpu yn fy marn i yw sut rydym yn cyfleu'r neges honno. Pan ddechreuais weithio gyda Dŵr Cymru, doedden nhw ddim yn hoffi siarad am yr amgylchedd, ac un o'r rhesymau am hynny oedd nad oedden nhw eisiau cael eu herio... Ond mae hynny'n mynd i ddigwydd beth bynnag, felly rwy'n meddwl eu bod nhw wedi dechrau nawr. Rydw i wedi gweld... cynnydd o ran... hyrwyddo'r holl bethau cadarnhaol rydym ni wedi bod yn eu gwneud ... yr holl bethau rydym ni wedi bod yn eu gwneud ers blynyddoedd. Ond dydw i ddim yn meddwl bod...pobl yn deall... rydw i wedi gweld sut maen nhw'n gweithio gydag ecolegwyr a faint o arian maen nhw'n ei wario ar weithio gydag ecolegwyr a sut maen nhw'n gwneud yr holl astudiaethau amgylcheddol ... mae'n ymwneud â sut mae cyfleu'r neges honno... dyna beth sydd wedi newid yn fy marn i.

Rheolwr #2

Mae Dŵr Cymru yn gwmni nid-er-elw, sy'n golygu nad oes ganddo gyfranddalwyr. Fodd bynnag, mae angen i'r cwmni gynnal elw o hyd, gan ail-fuddsoddi yn y cwmni a'i raglenni buddsoddi. O ganlyniad, rhaid i'r tîm gweithredol gydbwyso nifer o anghenion, gan dderbyn bod yn rhaid i'r cwmni weithredu mewn modd sy'n gynaliadwy yn ariannol, ond hefyd cydnabod bod pryderon amgylcheddol a chymunedol yn flaenoriaethau i'w hystyried cyn y gellir rhoi unrhyw ffocws masnachol ar waith. Mae'r arwydd wrth fynedfa'r safle yn enghraifft o'r ymrwymiad hwn, gweler ffigur 4, ynghyd â sylwadau gan un o'r uwch reolwyr:

...rhywbeth rydw i wedi'i drafod yn fanwl...yw'r cydbwysedd rhwng y gymuned, yr amgylchedd a'r ochr fasnachol. Ac yn naturiol, nid yw hyn yn ymwneud â gwneud symiau enfawr o arian, ond ni all wneud colled enfawr chwaith.

Ond, yn gyntaf oll, mae pryderon amgylcheddol a chymunedol. Rhaid i ni gael y ddau yna'n iawn yn gyntaf, ac yna gallwn symud at y masnachol, dyna'r ffordd iawn o weithio. Os ydych chi'n gwneud y gwrthwyneb... masnachol yn gyntaf, yna'r

amgylchedd neu'r gymuned, mae'n debyg y byddwch yn methu. Rhaid i ni wneud yn siŵr ein bod yn ffocysu ar y pethau cywir.

Uwch Reolwr #2



Ffigur 4 – Yr arwydd ar y giât i safle'r gronfa ddŵr pan roedd y safle ar gau i'w hadnewyddu, sy'n dangos ein hymrwymiad i gynaliadwyedd.

Heriau

Trafododd y cyfranogwyr nifer o heriau yr oeddent wedi dod ar eu traws drwy'r prosiect. Roedd y rhain yn cynnwys pandemig COVID-19 a'r cyfyngiadau cysylltiedig, y blaenoriaethau a'r amcanion sy'n gwrthdaro o ran defnydd tir, a heriau iechyd a diogelwch.

Cyfyngiadau Covid-19

Yn gynnar yn y prosiect, roedd yn rhaid cydymffurfio â chyfyngiadau Covid-19 oedd yn ymwneud â chadw pellter cymdeithasol a mynediad, yn ogystal â'r diffyg caniatâd cynllunio a chyfleusterau ar y safle. Roedd y rhain yn cynnwys, er enghraifft, datblygu lleoliadau myfyrwyr ar-lein, yn hytrach nag wyneb yn wyneb. Fodd bynnag, er bod y cyfyngiadau hyn yn atal rhai gweithgareddau rhag digwydd fel y bwriadwyd, fel rhaglen rhagnodi cymdeithasol, roeddent yn caniatáu i ni symud ymlaen gyda gweithgareddau eraill. Er enghraifft, cwblhau asesiadau diogelwch coed i sicrhau bod gweithgareddau a gynlluniwyd yn y dyfodol yn ddiogel ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned, a datblygu'r polisi rheoli gwirfoddolwyr a'r prosesau gweinyddu cysylltiedig.

Er na ddigwyddodd rhai gweithgareddau oherwydd y cyfyngiadau hyn, mae gobaith y bydd hyn yn datblygu yn y dyfodol, yn enwedig gan fod y seilwaith wedi'i ddatblygu i'w alluogi:

Rydw i'n teimlo nad oedden ni'n gallu sicrhau llwyddiant (o ran rhagnodi cymdeithasol)... rwy'n meddwl bod gan y safle hwn botensial enfawr ar gyfer rhagnodi cymdeithasol, ond mae'n rhaid iddo fod yn agored. Dydw i ddim yn meddwl bod rhagnodwyr yn gallu rhagnodi'r safle hwn a'r gweithgareddau ... roeddem ni wedi dechrau gweithio gyda Chlwstwr [Iechyd] yng ngogledd Caerdydd, ac roedd modd iddynt danysgrifio pobl i fod yn aelodau o'r grŵp Cyfeillion.

Rheolwr #2

Y blaenoriaethau a'r amcanion sy'n gwrthdaro o ran defnydd tir

Mae dod o hyd i'r cydbwysedd rhwng diogelu ecoleg a chaniatáu i bobl fwynhau natur yn her sy'n wynebu llawer o sefydliadau sydd â'r cyfrifoldeb o reoli defnydd tir a mynediad cymunedol. Nid oes eithriad ar safle'r gronfa ddŵr, lle, er enghraifft, oherwydd presenoldeb y ffwng cap cwyr, ni chaniateir cŵn ar y safle. Mae risg, pe bai cŵn yn cael mynediad, y byddai lefelau nitradau o'u wrin yn effeithio ar dyfiant y ffwng cap cwyr. Mae'r ffwng cap cwyr yn rhywogaeth sensitif i newidiadau nitradau o'r fath, ac felly byddai mewn perygl pe bai cŵn ar y safle. Roedd rheoli'r mater hwn, a allai fod yn ddadleuol, yn heriol:

Mae wedi bod yn eithaf heriol o ran rheoli mynediad i'r safle, a gwneud hynny mewn ffordd sy'n lleihau'r effeithiau negyddol ar ecoleg y safle, oherwydd ei fod yn safle ecolegol sensitif iawn ac, hefyd, mae'n gronfa ddŵr weithredol. Felly, mae... wedi bod yn eithaf heriol... sicrhau'r cydbwysedd cywir.

Uwch Reolwr #1

Heriau Iechyd a Diogelwch

Roedd llywio drwy faes iechyd a diogelwch yn her, yn enwedig gyda'r ffordd newydd o weithio gyda gwirfoddolwyr. Gan fod gweithio gyda gwirfoddolwyr yn newydd i Dŵr Cymru, roedd y newydd-deb hyn yn ei gwneud yn anodd, ar adegau, i esbonio i weithwyr/cydweithwyr eraill Dŵr Cymru bod y dull hwn yn alinio â pholisïau iechyd a diogelwch Dŵr Cymru. Darparwyd enghraifft o'r her hon drwy adeiladu'r wal gerrig sych. Cynhaliwyd y gwaith gan elusen a gwirfoddolwyr ond, 'fel arfer', byddai'r gwaith wedi cael ei wneud gan gwmni a gomisiynwyd gyda'r yswiriant angenrheidiol ar gyfer adeiladu. Ond, drwy gyfathrebu ac egluro, a gweithredu polisïau priodol, roedd staff Dŵr Cymru yn gallu sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau'n cael eu dilyn, gan gefnogi cyfranogiad cymunedol ystyrlon yn y prosiect. Roedd cefnogaeth gan uwch reolwyr i'r ffordd hon o weithio yn cefnogi hyn, ac roedd yn hanfodol o ran ei roi ar waith.

Cynlluniau ar gyfer y dyfodol

Mae'r thema olaf yn cynnwys cynlluniau ar gyfer Dŵr Cymru yn y dyfodol. Yn ystod y trafodaethau gyda'r cyfranogwyr, rhannwyd cynlluniau a bwriadau arloesol helaeth, gan gynnwys creu mwy o hygyrchedd a chynig cynhwysol, rhagnodi cymdeithasol, gwirfoddoli corfforaethol, cynllun gwobrwyo a rhaglen ehangach o weithgareddau i wirfoddolwyr ymwneud â hwy, yn seiliedig ar amrywiaeth o ddiddordebau. Mae cynllun gwobrwyo a chydabod yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd ar gyfer gwirfoddolwyr, ac mae uchelgais i ennill gwobr buddsoddwyr mewn gwirfoddolwyr ar gyfer cynnig gwirfoddoli presennol Dŵr Cymru:

Mae gen i lawer o gynlluniau i gynnig cyfleoedd gwirfoddoli cwbl hygyrch ledled Cymru, felly rwy'n edrych ar lawer o wahanol syniadau am sut gallwn ni gyflawni hynny a chael dewislen amrywiol o sut gall pobl gael mynediad at fywyd gwyllt ... bydd yn cynnwys pob math o anabledd hefyd ... pobl â phroblemau iechyd meddwl, anawsterau dysgu, anableddau dysgu.

Rheolwr #1

Canfyddiadau mewn perthynas ag amcan 2: Y mudiad cyfunol – profiadau'r Grŵp Gweithredu dros y Gronfa (RAG)

Daeth pedair thema i'r amlwg o'r canfyddiadau sy'n ymwneud ag amcan 2. Cyflwynir y themâu hyn, a'u his-themâu, isod, ac yna ceir esboniad o bob un gyda dyfyniadau cefnogol gan y cyfranogwyr.

Cymhellion allweddol ar gyfer aelodau'r Grŵp Gweithredu dros y Gronfa

Roedd y prif gymhellion yn cynnwys gwerth natur, atgofion o weithgareddau hamdden a chysylltiadau emosiynol â'r safle, ac ymdeimlad o geisio cyfiawnder.

Gwerth natur

Mewn blynyddoedd blaenorol, pan oedd y mannau glas a gwyrdd yng nghronfeydd dŵr Llys-faen a Llanisien yn hygyrch i'r gymuned leol, roedd aelodau o'r RAG yn ymweld â'r ardal yn rheolaidd ac yn ei werthfawrogi. Roedd unigolion yn mwynhau ac yn gwerthfawrogi cerdded ar y safle, natur y warchodfa drefol, a'r bywyd gwyllt a oedd yn cynnwys nadroedd gwair, llyffantod ac adar.

Eglurodd un unigolyn fod cerdded ar y safle yn gwneud iddo deimlo'n well o ran lles corfforol a meddyliol (h.y. ymdopi â swydd eisteddog), tra bod unigolyn arall yn mwynhau cysylltu â harddwch natur, gan dynnu sylw at fanteision therapiwtig ac ysbrydol y safle ("shangri-la", "heddwch a llonyddwch").

Yn ogystal â phrofiadau personol cadarnhaol i aelodau unigol, daeth y syniad o 'goridor gwyrdd' yn ymadrodd allweddol drwy gydol yr ymgyrch. Y 'coridor gwyrdd' neu'r 'letem las' yw'r ardal o ofod gwyrdd sy'n rhedeg drwy ddinas Caerdydd, ac sydd o bwys ecolegol a symbolaidd yn yr ardal drefol. Yn yr ystyr hwn, nid yn unig yw natur yn rhywbeth y mae pobl yn ei brofi'n unigol yng Nghronfeydd Dŵr Llys-faen a Llanisien, ond hefyd yn syniad ar y cyd i ddenu pawb yng Nghaerdydd i warchod yn erbyn bygythiadau i fannau gwyrdd a glas yn y ddinas yn y dyfodol. Mae'r syniad hwn yn cael ei gyflwyno isod:

O'r cychwyn cyntaf, roedd y RAG wedi llunio ein strategaeth ac roedd y rhan fwyaf o hynny'n ymwneud â sefydlu lletem las gogledd-ddwyrain Caerdydd fel y'i gelwid, hynny yw y coridor gwyrdd hwn. ... Ac roedd hynny, rwy'n meddwl, yn beth pwysig iawn i'w sefydlu o'r cychwyn cyntaf. Ac wedyn ymrwymodd yr holl grwpiau gwahanol i hynny, ac roedd yn cynnig ffocws go iawn, rwy'n credu, fel her i Western Power. Felly, credaf fod gennym strategaeth ar gyfer y dyfodol. Nid ennill yr ymgyrch yn unig, ond lle mae'r gronfa ddŵr yn eistedd o fewn fframwaith Caerdydd, oherwydd ei bod yn rhan o'r coridor gwyrdd, felly gallwch gerdded o ganol y dref yr holl ffordd i fyny i gopa Mynydd Caerffili.

Samuel

Atgofion o weithgareddau hamdden yng Nghronfa Ddŵr Llanisien

Roedd defnyddio cronfa ddŵr Llanisien ar gyfer gweithgareddau hamdden, gan gynnwys pysgota, cerdded a hwylio, yn atgofion melys a drafodwyd gan y grŵp. Roedd hon yn nodwedd allweddol o dreftadaeth ddiwylliannol y safle, fel rhywbeth i'w rannu ag aelodau'r teulu a'i throsglwyddo i genedlaethau'r dyfodol. Rhannodd aelodau'r RAG straeon am ddysgu ac addysgu sgiliau hwylio, gan ymfalchïo yn y ffaith bod hwylywyr cystadleuol wedi dysgu hwylio yno, gan gynnwys Hannah Mills, a enillodd fedal yn y gemau Olympaidd.

Roeddwn i a chriw eithaf mawr ohonom yn helpwyr a fyddai'n mynd allan gyda'r plant yn y cychod ac yn rhoi ychydig o hyder iddynt ac yn eu helpu gyda'r hwylio. Ac roeddwn i'n ystyried Cronfa Ddŵr Llanisien fel lleoliad delfrydol i addysgu plant sut i hwylio. Oherwydd roedd y gronfa ddŵr yn ddigon mawr iddyn nhw wibio yn y cychod a chael ychydig o gyffro. Ond nid yw'r gronfa ddŵr yn rhy fawr i fod yn beryglus iddyn

*nhw. Pe baen nhw'n cwmpo allan o'r cwch, gallech chi fod gyda nhw'n gyflym iawn.
Ac fe wnes i hynny am flynyddoedd maith.*

Robert

Cysylltiad emosiynol cryf â'r cronfeydd dŵr lleol a cheisio cyfiawnder

Fe wnaeth y cyhoeddiad yn 2001 bod datblygiad tai wedi'i gynllunio ar safle'r gronfa ddŵr dramgwyddo aelodau'r grŵp. Dywedodd Robert: *"Pan gafodd ei gyhoeddi'n sydyn, cefais fy synnu'n llwyr gan nad oedd unrhyw beth wedi'i ddweud"*. Mynegodd yr aelodau eu pryder a'u dicter drwy iaith emosiynol, fel *"gobsmacked", "mad", "tamping", "worry", "outrage" a "depressed"*. Mae'r iaith yn awgrymu cysylltiad emosiynol cryf â safle'r gronfa ddŵr, a bod yr ymatebion greddfol hyn wedi arwain at aelodau'n dymuno lleisio'u barn a chymryd camau i ddiogelu'r cronfeydd dŵr.

Cyfiawnder oedd y prif ysgogydd a arweiniodd yr aelodau i gynnal ymgyrch ddi-baid dros ddau ddegawd. Dechreuodd hyn gyda sioc y cyhoeddiad cychwynnol, fel y soniwyd, ond parhaodd wrth i'r ymgyrch fynd rhagddi, wrth i dactegau ymosodol canfyddedig Western Power Distribution ddod yn fwy amlwg. Yr oedd yr ymddygiad ymosodol yn ymwneud, yn gyntaf, â'r diffyg cyfathrebu gyda'r gymuned, yn ail, y diffyg gofal am y safle ei hun ac, yn drydydd, yn eu rhyngweithio â'r ymgyrchwyr yn y frwydr gynllunio. Defnyddiodd Samuel gyfatebiaeth y ffilm Erin Brockovich i amlinellu sut y gwelodd yr ymgyrch – lle mae dinasyddion yn herio corfforaeth i amddiffyn ased cenedlaethol.

*Brwydro dros gyfiawnder yw'r prif amcan. Dyna yw ein pwrpas. I ni, roedd yr hyn
roedden nhw'n ceisio ei wneud yn hollol anghyfiawn... mae'n waddol i
genedlaethau'r dyfodol. Dyna sut yr edrychais arno o'r dechrau ...*

Samuel

Disgrifiodd y cyfranogwyr hefyd rai o'r tactegau a ddefnyddiwyd, ac un stori yn benodol lle rhoddwyd proses lanhau'r cerrig o amgylch y gronfa ddŵr ar waith i atal canfod cennau yn ystod arolwg ecolegol:

*Ac wedyn roedden nhw'n poeni am y cennau ar y glannau, oherwydd eu bod ymhell
dros 100 mlwydd oed. Roedden nhw'n poeni eu bod nhw'n mynd i gael eu rhestru ar
gyfer y cen oherwydd bod ganddyn nhw SDdGA yn barod ar [recordiad annealladwy].
Ac fe wnaethon nhw anfon dyn o gwmpas gyda theclyn golchi pwerus i olchi'r holl
gerrig hyn ac ... fe olchodd y cerrig am tua wythnos fel nad oedden nhw'n gallu cynnal
arolwg ecolegol i weld beth oedd yno, oherwydd roedden nhw eisoes wedi dod o hyd i
ffwng cap cwyr yno, sydd ddim yn bodoli unman arall yn Ewrop yn gyffredinol, roedd
yn ymosodol iawn.*

Matthew

Fodd bynnag, bu'r ymgyrch yn llwyddiannus, a chafwyd llawer o ddathlu pan gyhoeddwyd hyn yn y papurau lleol, gweler ffigur 5 isod.



Ffigur 5 – Darn o bapur newyddion sy'n rhoi manylion am lwyddiant ymgyrch y RAG i ddiogelu eu mannau glas a gwyrdd lleol, a delweddau o'r placardiau eiconig a oedd i'w gweld yng ngogledd Caerdydd yn y 2000^{au}. Rhannwyd y darn gan un o aelodau'r RAG.

Digwyddiadau allweddol ac amseroedd cofiadwy yn yr ymgyrch

Archwilio profiadau byw aelodau'r RAG, gan gynnwys cofio'r digwyddiadau allweddol a'u hystyr iddyn nhw. Roedd y rhain yn cynnwys cyfarfodydd cyhoeddus, mewnbyn yn yr ymchwiliad cyhoeddus, codi arian ar gyfer yr ymgyrch, isafbwyntiau a chroesffyrdd yr ymgyrch.

Cyfarfodydd cyhoeddus

Tynnodd y grŵp sylw at dri chyfarfod cyhoeddus, fel atgofion melys iddyn nhw fel unigolion, yn ogystal ag adegau allweddol yn yr ymgyrch:

- 1 Cyfarfod cyhoeddus, yn gynnar yn yr ymgyrch (4 Rhagfyr 2001) i sefydlu'r ymgyrch yn ysgol gynradd leol Rhyd-y-penau. Roedd 600 o bobl yn bresennol ac fe'u disgrifiwyd gan un cyfranogwr fel 'gwyich'. Dywedodd y cyfranogwyr mor braf oedd gweld cynifer o bobl yn mynychu, gan nodi nad oedd digon o le yn yr ysgol i bawb. Cafodd yr ymateb hwn ei gofnodi yng nghylchlythyr y Democratiaid Rhyddfrydol Lleol, a oedd yn cynnwys y pennawd '*Massive response to reservoir campaign*'.
- 2 Cyfarfod cyhoeddus yn yr awyr agored yn y maes parcio ger y gronfa ddŵr.
- 3 Cyfarfod cyhoeddus mewn darlithfa yn Ysbyty'r Mynydd Bychan yn 2003, ychydig ar ôl y cyfarfod cynllunio cyntaf. Rhoddodd y cyfarfod hwn y wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am faterion ymgyrchu ac unwaith eto, roedd nifer fawr o bobl yn bresennol, tua 700, ac roedd y grŵp wedi archebu'r ddarlithfa fwyaf y gallent ddod o hyd iddi er mwyn darparu ar gyfer pob un ohonynt. Rhoddodd y South Wales Echo sylw i'r stori, gweler ffigur 6 isod.



Ffigur 6 – Darn o bapur newyddion yn dangos enghraifft o gefnogaeth gyhoeddus yn Ysbyty'r Mynydd Bychan, o'r South Wales Echo (29 Ionawr 2003), a rannwyd gan un o aelodau'r RAG.

Mewnbwn mewn ymchwiliadau cyhoeddus

Pedwar ymchwiliad cyhoeddus oedd cerrig milltir allweddol yr ymgyrch, a nhw oedd elfennau pwysicaf ymgyrch y RAG. Ym mhob ymchwiliad, roedd grŵp yr ymgyrch yn un o'r cyfranogwyr allweddol (fel arfer ochr yn ochr â Chyngor Caerdydd a Western Power Distribution).

Nid oedd o fewn cwmpas yr astudiaeth hon i archwilio'r digwyddiadau hyn yn fanwl, ond mae rhagor o wybodaeth ar gael ar [wefan y RAG](#) ac mewn llyfr sydd ar y gweill, gan Richard Cowie, a fydd yn cael ei hunan-gyhoeddi yn 2023. Fodd bynnag, mae'r testun isod o e-bost a dderbyniwyd gan un o aelodau'r RAG, ar ôl i'r grŵp ffocws gael ei gynnal, yn dangos pa mor ddwys ac estynedig oedd yr ymgyrch i aelodau'r RAG:

Cynhaliwyd tri Ymchwiliad Cynllunio yn 2008, 2008 a 2011. Cafwyd pedwerydd ymchwiliad hefyd i'n hymgais i ddatgan Dolydd Nant Fawr, ochr yn ochr â'r gronfa ddŵr, fel maes pentref. Unwaith eto, roedd hon yn fenter a ddechreuwyd gan [enw ail gadeirydd y RAG]. Byddai hyn wedi atal Western Power rhag creu mynediad o Ffordd Rhyd-y-penau, ond yn anffodus methodd hyn ar fanylyn technegol. Roedd pob un o'r ymchwiliadau hyn yn ymestyn ein coffrau ariannol i'r eithaf. Roedd gan Western Power dîm cyfreithiol pwerus, a oedd yn cael ei arwain gan [enw gwrywaidd], un o brif Gwnsleriaid y Brenin yn Llundain, gyda chymorth bargyfreithiwr arall ac uwch bartneriaid o gwmni cyfreithwyr [enw'r cwmni cyfreithwyr]. Rhaid bod Western Power wedi gwario miliynau ar ffioedd cyfreithiol, nid oedd arian yn broblem iddyn nhw. Yr unig reswm yr enillom ni oedd oherwydd y gwnaethom ni restru argloddiau'r gronfa ddŵr fel Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ar gyfer eu casgliad o ffwng glaswelltir sy'n bwysig yn rhyngwladol, ac am

fod cronfa ddŵr Llanisien wedi'i chofrestru fel strwythur o bwysigrwydd hanesyddol. Roedd hyn hefyd yn cefnogi ei leoliad neu ei amgylchoedd. Yn yr ymchwiliad terfynol, penderfynodd yr arolygydd cynllunio fod dŵr yn lleoliad mwy priodol ar gyfer cronfa ddŵr nag ystâd o dai.

Winston

Cyflogodd y RAG fargyfreithwyr i'w cynrychioli, a oedd yn ddrud iawn, a dyma oedd prif nod y gweithgareddau codi arian. Roedd un prif fargyfreithiwr yn cydymdeimlo â'r achos ac yn cydnabod y wybodaeth a oedd gan bwyllgor y RAG, fel yr eglurodd Robin: *"Dywedodd y bargyfreithiwr, 'Byddaf yn codi pan fydd angen i mi siarad', a dyna sut roedd modd cadw'r costau cyfreithiol yn isel"*. Ar un achlysur, fodd bynnag, roedd bargyfreithiwr llai profiadol yn cynrychioli'r RAG, gyda chanlyniadau trychinebus:

Cafwyd un ymchwiliad cynllunio lle'r oedd y [cyn-gadeirydd] wedi cyfaddawdu ychydig ar ei gynrychiolaeth gyfreithiol, ac roedd bargyfreithiwr ifanc ... bargyfreithiwr dan hyfforddiant neu fargyfreithiwr newydd, ac yr oedd hi yn yr ymchwiliad, a gallaf ei chofio hi'n ceisio herio [enw'r bargyfreithiwr gwrywaidd] ac roeddem ni i gyd yn yr oriel gyhoeddus ac ... rwy'n cofio ei bod yn eistedd wrth ddesg yn edrych i lawr... ni ddylai ei chwmmni cyfreithiol fod wedi ei rhoi yn y sefyllfa yna. Roedd yn annheg iawn, ac rwy'n cofio [enw benywaidd], un o'r menywod sy'n ein cefnogi. Roeddwn i'n eistedd gyda hi yn yr oriel gyhoeddus a dywedodd hi 'Dywedwch wrthi am eistedd ar yr ochr ac fe af i lawr a dadlau'... roedd yn ofnadwy. Roedd yn erchyll.

Robin

Codi arian – y grŵp cerdded

Roedd un ymgyrchydd yn y grŵp ffocws yn gerddwr brwd a threuliodd amser yn trefnu teithiau cerdded o amgylch Llanisien, a thu hwnt, i godi arian a chyhoedduswyd i'r RAG. Roedd yn llwyddiannus iawn oherwydd bod gwleidyddion lleol wedi cymryd rhan hefyd. Roedd grŵp *Save Our Cardiff Waters Walk* (SOCRW) yn rhedeg ochr yn ochr â'r RAG, ond yna ymunodd y sylfaenydd â Phwyllgor y RAG. Mae'n enghraifft o sut y daeth y gymuned at ei gilydd ar gyfer yr ymgyrch. Cymerodd gwleidyddion o bob rhan o'r sbectrwm gwleidyddol ran yn y teithiau, gan gynnwys Julie Morgan AS (Llafur), Eluned Parrott AS (Democratiaid Rhyddfrydol), Jonathan Evans AS (Ceidwadwyr) a Rhodri Morgan, Cyn Brif Weinidog Cymru (Llafur). Dywedodd y cyfranogwr a drefnodd dri o'r teithiau cerdded: *"roedd y gwleidyddion yn rhan ohono hefyd, roedden nhw'n gefnogol iawn o'r ymgyrch"*.

Isafbwyntiau'r ymgyrch

Cydnabuwyd dau isafbwynt gan yr ymgyrchwyr a siaradodd yn angerddol, yn rymus ac yn fanwl am yr ymgyrch. Roedd y cyntaf yn ergyd mewn ymchwiliad cyhoeddus pan, yn y gwrandawriad cyntaf, roedd yr arolygydd yn cydymdeimlo â dadleuon y RAG, ond yn dilyn hynny penodwyd ail arolygydd yn dilyn apêl gan Western Power Distribution a chyflwyno cais diwygiedig. Nid oedd yr ail arolygydd yn cydymdeimlo â'r ymgyrch i'r un graddau, ac roedd hyn yn cael ei ystyried yn drychinebus i'r ymgyrchwyr; *"roeddwn ni'n teimlo'n isel iawn bryd hynny"*. Yr ail isafbwynt oedd y cais gan beiriannydd cronfeydd dŵr i archwilio pibellau sy'n rhedeg ar hyd gwaelod y gronfa ddŵr, a arweiniodd at ddraenio'r gronfa ddŵr. Nid oedd y RAG yn gallu brwydro yn erbyn y penderfyniad hwn oherwydd ei fod wedi cael ei wneud fel mater o ddiogelwch o dan Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975. Roedd effaith hyn ar aelodau'r RAG yn sylweddol, yn rhannol oherwydd y weithred symbolaidd o ddraenio'r gronfa ddŵr:

Dyma oedd un o'r pethau gwaethaf a ddigwyddodd. Isafbwynt arall ar ddechrau'r ail ymchwiliad yn 2008. Cafodd Western Power y peiriannydd cronfeydd dŵr sy'n gyfrifol am ddiogelwch cronfeydd dŵr i wneud adroddiad ychwanegol. Canfu'r archwiliad fod

angen archwilio rhan o bibell oedd yn rhedeg ar hyd gwaelod y gronfa ddŵr, a dywedodd mai'r unig ffordd o gynnal archwiliad oedd draenio'r holl ddŵr allan o'r gronfa ddŵr.

Aelod o bwyllgor FoCR

Trobwynt – Rhestru'r gronfa ddŵr fel adeilad o bwysigrwydd hanesyddol i Gymru a CELSA Steel (DU)

'Trobwynt' ymgyrch y RAG oedd dynodi Cronfa Ddŵr Llanisien yn Adeilad Rhestredig Gradd II gan [CADW](#) ar 24/07/2009 (Cyf. 87591); felly ystyriwyd bod y gronfa ddŵr o "ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig i Gymru" (CADW, 2023). Eglurodd aelod o'r RAG, a oedd wedi gweithio i Gyngor Caerdydd yn flaenorol yn yr adran gynllunio, fod yr hyn a gyflawnwyd gan ail gadeirydd pwyllgor y RAG wedi trechu Western Power Distribution yn y pen draw:

Cronfa Ddŵr Llanisien yw'r 4^{ydd}, a'r olaf, yn y gadwyn o gronfeydd dŵr sy'n dechrau ym Mannau Brycheiniog. Roedd y tri uchaf eisoes wedi'u rhestru o ran eu diddordeb hanesyddol ac, am resymau a oedd yn fwyaf adnabyddus iddynt, nid oedd Cronfa Ddŵr Llanisien wedi cael ei rhestru, oherwydd eu bod yn dadlau mai cronfa ddŵr storio yn unig oedd hi. Nid yw'n gronfa ddŵr enfawr. Ond... cyflwynodd [ail gadeirydd y RAG] ... oedd yn bensaer ... ddogfen yn cefnogi'r rhestriad, gan gyflwyno dadleuon cryf iawn na chafodd eu derbyn i gychwyn... Cafodd ei gyflwyno i wrandawriad yn yr Uchel Lys, a'r hyn rwy'n ei gofio am hynny yw pendantrwydd y barnwyr ... roedd rhaid iddo ei orffen cyn cinio oherwydd bod yn rhaid i bawb fynd i rywle arall yn y prynhawn. Felly, fe aethom ni i ffwrdd am awr, cyn dychwelyd... a heb nodiadau...aeth e trwy'r holl bwyntiau a gwrthod dadleuon Western Power yn llwyr. O ganlyniad, cafodd y gronfa ddŵr ei rhestru... felly rwy'n meddwl bod hynny'n bwynt arwyddocaol iawn.

Robin

Er bod y broses a oedd yn weddill yn "fwy cymhleth ar ôl hynny a'i bod wedi cymryd ychydig mwy o amser", mae Robin yn egluro mai ymdrechion y Cadeirydd ar y pryd oedd y peth mwyaf allweddol am yr ymgyrch. Roedd rhestriad llwyddiannus y gronfa ddŵr yn cynnwys y strwythur ei hun yn ogystal â'r lleoliad, a oedd yn golygu na allai'r apêl cynllunio gan Western Power Distribution fod yn llwyddiannus ac, yn ôl aelodau'r RAG, roedd Bargyfreithiwr Western Power, yn yr ymchwiliad, yn gwybod "ei fod wedi colli".



Ffigur 7 – Llun o Andrew Hill (cyn-gadeirydd y RAG, chwith), Julie Morgan AS (canol) a Richard Cowie (cyn-gadeirydd y RAG, ar y dde). Llun o www.westwaleschronicle.co.uk a gyhoeddwyd ar 18 Medi 2023

Ni ddaeth gweithgareddau'r RAG i ben pan adawodd Western Power Distribution y safle, fel yr eglurodd Winston, drwy e-bost, a anfonwyd ar ôl y grŵp ffocws:

Pan gerddodd Western Power i ffwrdd yn 2013, gadawyd cronfa ddŵr Llanisien yn wag, wedi'i difrodi ac wedi'i hamddifadu'n swyddogol. Cafodd y cronfeydd dŵr eu prynu gan Celsa Steel a oedd eisiau sicrhau cyflenwad dŵr o gronfa ddŵr Llys-faen. Roedd diwydiant dur y DU yn wynebu argyfwng ar y pryd, gyda chostau ynni uchel a dur rhad o Tsieina yn gorlifo i'r farchnad. Nid oedd ganddynt amser nac arian i'w wario ar y cronfeydd dŵr bryd hynny, dim ond ceisio cadw eu busnes i fynd. Pan wnaethom gwrdd o'r diwedd â Phrif Swyddog Gweithredol Celsa yn Sbaen, roedd yn ddyn hyfryd. Cyfaddefodd nad oeddent yn gwybod llawer am gronfeydd dŵr ond eu bod yn awyddus i ystyried ein dymuniad i weld cronfa ddŵr Llanisien yn cael ei hail-lenwi. Er ei bod wedi cymryd cryn amser, ac yn ystod y cyfnod hwnnw bu'n rhaid i ni fod yn amyneddgar iawn, fe wnaethon nhw negodi bargaen gyda Dŵr Cymru i adfer y cronfeydd dŵr a'u hagor fel amwynder cyhoeddus, gan sicrhau cyflenwad dŵr ar yr un pryd. Roedd hi'n fargen dda, ac yn fuddugoliaeth i Celsa, yn fuddugoliaeth i Dŵr Cymru ac yn fuddugoliaeth i ni. Gwariodd Dŵr Cymru lawer o arian yn adfer y cronfeydd dŵr. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r ddau gwmni.

Winston

Nodweddion yr ymgyrch

Roedd nodweddion yr ymgyrch yn cynnwys yr ymdrech strategol i gyflawni'r nod, a'r arweinwyr allweddol a arweiniodd yr ymgyrch, y gefnogaeth leol gref, ac aros yn anwleidyddol.

Ymdrechion strategol

Roedd ymgyrch y RAG yn strategol a threfnus iawn, ac yn cynnwys dinasyddion proffesiynol ac addysgedig iawn ar y pwyllgor craidd. Roedd unigolion allweddol wedi sicrhau llwyddiant yr ymgyrch, gan gynnwys unigolion â chefnidir mewn gwleidyddiaeth, cynllunio awdurdodau lleol a darlledu:


O ran proffesiynoldeb yr ymgyrch... roedd gennym strategaeth gadarn o'r cychwyn cyntaf o ran yr hyn yr oedd angen i ni ei gyflawni, a sut yr oedd angen i ni ei gyflawni. Ac roedd hynny'n hollol eglur bob cam o'r ffordd. Nid oedd gan neb unrhyw amheuaeth ynghylch yr hyn yr oedd angen ei wneud ac mae hynny'n bwysig iawn i mi.

Samuel

Roedd un o aelodau'r RAG, gyda chefnidir mewn ymgyrchu gwleidyddol, yn ffocysu ar sicrhau bod y RAG yn cynnal ymdrechion ar weithgareddau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, yn hytrach na deisebau, er enghraifft, gan na fyddent yn cael fawr o effaith ar y rhai sy'n gwneud penderfyniadau.

Trefnwyd y cyfarfod hwn gennym yn gynnar yn 2003 yn Ysbyty'r Mynydd Bychan, er mwyn i ni allu briffio'r aelodau ynghylch beth i'w ysgrifennu a sut i fynd i'r afael â'r ceisiadau cynllunio ... Roedd [enw aelod y RAG sydd â chefnidir mewn ymgyrchu] yn gwrthwynebu pobl yn sefyll gyda phlacardiau mewn llefydd, a hefyd yn erbyn deisebau. Roedd yn meddwl bod deisebau'n wastraff amser ac, o ganlyniad, roeddem yn annog pobl i ysgrifennu fel unigolion at eu ... gwleidyddion lleol ...

Winston



Ffigur 8 – Enghraifft o lenyddiaeth a ddatblygwyd gan y RAG am y ‘letem las’ (a’r ‘coridor’ yn ddiweddarach). Rhannwyd gan Samuel.

Arweinwyr yr ymgyrch

Roedd pob aelod o’r grŵp yn hanfodol i ymgyrch y RAG, ac roeddent yn cael eu gwerthfawrogi am eu sgiliau a’u gwahaniaethau: *A dyna, yn y bôn, beth sydd gennych chi yma... yr holl bobl wych hyn sydd â’r holl sgiliau gwahanol hyn. Gwahanol bersonoliaethau, a daeth pob un ohonom at ein gilydd...*

Samuel

Trafodwyd dau berson yn y grwpiau ffocws ac ystyriwyd eu bod yn allweddol i’r ymgyrch, sef cyn-gadeiryddion y RAG. Bu’r sylfaenydd a’r Cadeirydd gwreiddiol yn ymwneud yn helaeth ag un o’r prif bleidiau gwleidyddol yng Nghymru, a defnyddiodd ei wybodaeth, ei rwydwaith a’i ddylanwad gwleidyddol i arwain ymgyrch strategol a llwyddiannus yn y pen draw:

Roedd [Cadeirydd a sylfaenydd y RAG] yn ddeallus iawn yn wleidyddol, roedd ganddo lawer o gysylltiadau ac roedd yn gwybod sut roedd y system wleidyddol yn gweithio. Ac roedd hynny’n help mawr i ni...

Winston

Siaradodd aelodau’r RAG yn gadarnhaol am ei waith caled, ei benderfyniadau a’i arweinyddiaeth. Buont hefyd yn siarad â hiwmor da am ei benderfyniadau craff, megis parhau i fod yn anwleidyddol a chanolbwyntio’r ymgyrch ar weithgareddau fel cynllunio brwydrau yn hytrach nag arddangosiadau cyhoeddus a deisebau.

Yn y pwyllgor RAG, fe wnaethon ni drafod yr arwyddion hyn [placardiau glas] a ...roedden nhw’n mynd i fod yn eithaf drud, ac roedden ni’n meddwl, ‘www, mae hynny’n ... lawer o arian i’w wario ar yr arwyddion’. Roedd [Cadeirydd cyntaf y RAG] yn gwbl bendant bod angen yr arwyddion hyn arnom ac fe orfododd e ni i gytuno... ac roedd hynny’n gam cadarnhaol iawn. Roedd e’n gwybod beth roedd e’n ei wneud o ran yr ymgyrchu.

Winston

Yn ogystal, chwaraeodd ail gadeirydd y RAG ran bwysig yn y gwaith o sicrhau llwyddiant y RAG, gan gynnwys y gwaith o restru'r gronfa ddŵr yn llwyddiannus fel Adeilad Rhestredig Gradd II gan CADW, a'r pedwerydd cais cynllunio i ddynodi'r gronfa ddŵr yn faes pentref.

Cefnogaeth leol gref

Eglurodd Winston fod “ymateb enfawr gan y gymuned leol”, o ran, er enghraifft, dosbarthu taflenni, mynychu cyfarfodydd cyhoeddus lleol a “chefnogaeth enfawr, sylweddol, gan bawb a oedd yn byw’n lleol”. Arddangoswyd cefnogaeth drwy weithgareddau codi arian hefyd, megis y teithiau cerdded a grybwyllwyd uchod, prynu a gwerthu nwyddau a rhoddion:

Yn y dyddiau cynnar, cyfrannodd pawb at yr ymgyrch. Unrhyw un yn yr ardal a oedd yn gallu darlunio neu wneud crochenwaith neu unrhyw beth felly.

Samuel

Ie, crochenwaith. Roedd yn gymuned go iawn. Ac mae gennym ni rai cymwynaswyr hael iawn hefyd. Pobl sy’n rhoi rhoddion. Cawsom un rhodd pum ffigur hyd yn oed.

Winston

Roedd papur newydd lleol yr Echo hefyd yn cefnogi'r ymgyrch. Cynhaliodd yr Echo arolwg ymysg darllenwyr y papur ynghylch a ddylai'r papur gefnogi'r ymgyrch, a arweiniodd at gefnogi ymgyrch y RAG. Roedd cyfranogwyr y grwpiau ffocws a'r trafodaethau yn cytuno ei fod yn ffactor allweddol i lwyddiant yr ymgyrch.

Ymgyrch yn croesi ffiniau pleidiau gwleidyddol

Roedd yr ymgyrch yn croesi ffiniau gwleidyddol a arweiniodd at unigolion a phleidiau gwleidyddol yn gallu ei chefnogi, beth bynnag fo'u cysylltiad gwleidyddol. Arddangoswyd y gefnogaeth drwy ymrwymo i ymgyrchoedd codi arian fel teithiau cerdded, ymrwymiad ariannol (e.e. y Democratiaid Rhyddfrydol) a mynychu cyfarfodydd a digwyddiadau'r wasg. Roedd hyn oherwydd y ffordd strategol y gwithiodd aelodau'r RAG yr ymgyrch yn ei blaen, ond roedd hefyd elfen o lwc oherwydd bod safle'r gronfa ddŵr ar bwynt cyfarfod ffiniau pleidiol gwleidyddol yng ngogledd Caerdydd, ac felly daeth yn ymgyrch yr oedd pob plaid eisiau bod yn rhan ohoni.

Ie, oherwydd fel arfer maen nhw eisiau sgorio pwyntiau yn erbyn ei gilydd, ond er tegwch, roedden nhw'n gweithio gyda'i gilydd, ac roedd yn [achos] cyffredin.

Robert

Effeithiau'r ymgyrchu ar aelodau'r pwyllgor

Trafodwyd effeithiau ymgyrchu ar iechyd corfforol, lles meddyliol ac iechyd cymdeithasol aelodau'r RAG, gan ganolbwyntio ar eu teimlad o ymgyrchu gyda'i gilydd dros achos cyffredin a rennir. O ran lles cymdeithasol, roedd y grŵp yn cydnabod eu bod yn gallu gwneud ffrindiau newydd, eu bod yn cael hwb gan gefnogaeth y gymuned leol, a'u bod yn ennill hunanwerth drwy sefyll i fyny i'r her ac 'ymladd' yn erbyn y datblygiad. Fel y dywed Robert: “I gychwyn, ein hagwedd oedd os rydym ni’n mynd i gael ein trechu, o leiaf byddwn ni’n brwydro i’r diwedd un.”

Dywedodd gwahanol bobl wrthyf yn y dyddiau cynnar ‘does dim ffordd y byddwch chi’n ennill. Rydych chi’n wynebu’r bobl hyn sy’n bwerus iawn, ac mae ganddyn nhw lawer o arian ac rydych chi’n gwastraffu eich amser’, ac rwy’n siarad am bobl wybodus iawn fan hyn. A dywedais, ‘Wel, rwy’n mynd i wneud fy ngorau i frwydro yn eu herbyn’. A dywedais, ‘Rwy’n gwybod fy mod i’n perthyn i sefydliad sydd bellach o’r

un anian â mi'. A dywedais, 'rhaid i ni frwydro'r holl ffordd'. A dyna oedd ffocws yr ymgyrch.

Robert

O ran iechyd corfforol, mae Matthew yn cellwair bod ei iechyd wedi gwella wrth iddo gymryd rhan mewn gweithgareddau heriol, fel gosod pyst placardiau yn y ddaear, gan awgrymu bod y gwaith llaw wedi ei wneud yn gryfach. O ran lles meddyliol, nid oedd unrhyw un yn uniaethu â theimladau o 'straen' o wirfoddoli ar gyfer y RAG, dim ond pryder ynghylch canlyniad yr ymgyrch, a siomedigaeth o benderfyniadau yn y prosesau cynllunio.

Hefyd, roedd pawb yn gwybod yn union beth roedden nhw'n ei wneud. Hynny yw, nid oedd yr hyn roeddwn i'n ei wneud yn wahanol iawn i'r hyn rydw i wedi bod yn ei wneud pan oeddwn i'n gweithio i adran cynllunio'r ddinas, felly yn yr ystyr hwnnw, nid oedd yn straen lle'r oedd yn rhaid i chi feddwl 'dydw i ddim yn gwybod beth rydw i'n ei wneud yma, beth ddylwn i ei wneud?' Roeddwn i'n gwybod beth roeddwn i eisiau ei wneud. Felly, yr unig straen, pe bai'n bodoli o gwbl, oedd rhagweld y canlyniad.

Robin

Canfyddiadau mewn perthynas ag amcan 3: Gwirfoddoli – profiadau, cymhellion a chanlyniadau

Daeth pum thema i'r amlwg o'r canfyddiadau sy'n ymwneud ag amcan 3. Cyflwynir y themâu hyn, a'u his-themâu, isod, ac yna ceir esboniad o bob un gyda dyfyniadau cefnogol gan y cyfranogwyr. Mae'r thema gyntaf yn cyflwyno cefndir byr a chyflwyniad i'r FoCR a gododd mewn sgysiau, ac yna'r themâu, sef cymryd rhan a'r hyn sy'n cymhell pobl i wirfoddoli, gweithgareddau, manteision gwirfoddoli a chanfyddiadau o'r system rheoli gwirfoddolwyr a ddatblygwyd gan Dŵr Cymru.

Cyfeillion Cronfeydd Dŵr Caerdydd (FoCR) – cefndir, cyflwyniad a chynlluniau ar gyfer y dyfodol
Mae Cyfeillion Cronfeydd Dŵr Caerdydd (FoCR) yn grŵp cymunedol a sefydlwyd yn 2021 gan Dŵr Cymru a'r Grŵp Gweithredu dros y Gronfa (RAG). Ei nod yw hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad y gymuned yn safle Cronfa Ddŵr Llys-faen a Llanisien, ac mae ganddo nodau gwahanol i'r RAG. Eglurir hyn isod gan un o'r cyfranogwyr:

Y prif amcan mewn gwirionedd yw annog a hwyluso cyfranogiad y gymuned yn y prosiect cronfeydd dŵr. Felly, rydym ni'n wahanol i'r RAG. Mewn gwirionedd, roedd y RAG yn grŵp ymgyrchu gyda safbwynt, a byddent yn cyflwyno sylwadau. Efallai bod ein haelodau eisiau i ni fynd mewn cyfeiriad gwahanol, ond hyd yma, rydym wedi bod yn ymwneud â hwyluso cyfranogiad, ymgysylltu â'r gymuned, rhannu gwybodaeth, felly gweithio'n adeiladol gyda Dŵr Cymru i wneud y gorau o'r adnodd er budd y gymuned...

Aelod o'r pwyllgor

Yn y dyddiau cynnar ar ôl ffurfio'r grŵp, oherwydd cyfyngiadau ar y safle a'r pandemig, prin oedd y gweithgareddau y gallai'r grŵp fod yn rhan ohonynt. Fodd bynnag, ers i'r cyfyngiadau hyn gael eu dileu, mae'r FoCR bellach yn cyfarfod yn fisol gydag agenda ffurfiol a chofnodion adolygu, i drafod pynciau fel y wefan, cyfryngau cymdeithasol, polisiau yswiriant a chysylltiadau â sefydliadau eraill (e.e. Cadwch Gymru'n Daclus a Chymdeithas Ynys Echni). Mae aelodau'r Pwyllgor yn unigolion sydd â, neu sydd wedi cael, rolau proffesiynol mewn elusennau, ysgolion, iechyd y cyhoedd, cyfrifeg ac addysg. Ers creu'r FoCR, bu dau gadeirydd. Yn anffodus, bu farw'r cadeirydd cyntaf, Paul Davies, ar 29 Rhagfyr 2022.

Mae gan y FoCR logo, a luniwyd drwy gystadleuaeth yn un o'r ysgolion cynradd lleol, Rhyd-y-penau, lle'r oedd y plant yn dylunio logos posibl, gydag un yn cael ei ddewis fel yr enillydd ac yna'n cael ei greu'n logo ffurfiol gan gwmni dylunio. Gellir gweld y logo isod yn ffigur 9, ac mae'n dangos y dŵr, chwaraeon dŵr, y ffwng cap cwyr a bywyd gwyllt.



Ffigur 9 – logo Cyfeillion Cronfeydd Dŵr Caerdydd.

Mae'r FoCR yn grŵp cyfansoddiadol annibynnol sydd â pherthynas waith gadarnhaol â Dŵr Cymru. Mae cynrychiolydd Dŵr Cymru yn mynychu'r cyfarfodydd misol ac mae eitem sefydlog ar yr agenda i rannu diweddariadau safle gyda'r FoCR. Eglurwyd y berthynas gyda Dŵr Cymru fel a ganlyn:

Gwneud yn siŵr bod pobl yn eu lle i redeg y gweithgareddau a bod y Parcmyr yn bresennol, a bod hynny'n cael ei wneud gyda Dŵr Cymru. Felly, cytuno ar raglen waith gyda nhw. Mae'n fenter ar y cyd go iawn.

Ond hefyd o ran y cyfleoedd gwirfoddoli... Mae ganddyn nhw fel arfer rhestr o bethau y byddai'r Parcmyr, neu bwy bynnag, yn hoffi cael help gyda nhw, ac mae gennym rai syniadau ynghylch beth fyddai'n eithaf da i'w wneud.

Aelod o'r pwyllgor

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod gwrthdaro posibl a allai godi rhwng y grŵp 'Cyfeillion' a chwmni sy'n rheoli'r safle, ond gwneir ymdrechion i osgoi senarios o'r fath:

Mae'n gweithio'n dda. Rwy'n credu bod yn rhaid i ni fod yn ofalus i osgoi unrhyw sefyllfaoedd dadleuol ... mae'r prosiect hwn yn ymgysylltu â'r gymuned trwy gynnig cyfleoedd gwirfoddoli.

Mae Dŵr Cymru ... o dan y lach ar hyn o bryd... Ym Mharc Hailey ac ati. Mae yna Gyfeillion Parc Hailey ac felly rydych chi'n meddwl 'dydyn ni ddim eisiau bod ar un ochr na'r llall o'r ddadl honno'.

Aelod o'r pwyllgor

Nododd un aelod o'r pwyllgor fod budd cyffredin i gydweithio rhwng y grŵp 'Cyfeillion' a Dŵr Cymru. Er enghraifft, mae ceisiadau am gyllid ar gyfer prosiectau yn fwy tebygol o lwyddo pan fydd sefydliadau yn cydweithio, ac yn cydnabod pwysigrwydd a gwerth gweithio gyda grŵp cymunedol. Mae'r canlyniadau cadarnhaol yn gydfuddiannol ac nid oes tystiolaeth o berthynas annheg:

Rydw i'n meddwl ei bod yn fantais iddyn nhw weithio gyda ni, felly maen nhw'n gwneud cais am gyllid cymunedol ... sy'n helpu i ariannu llawer o'r gweithgareddau hyn, ond mae'n debyg y byddant yn cael trafferth cael y darn hwnnw wedi'i gymeradwyo, oni bai fod ganddyn nhw ryw fath o drefniant gyda grŵp gwirfoddol... Felly mae manteision symbiotig i bawb o hynny.

Aelod o'r pwyllgor

Mae'r FoCR wedi llwyddo i recriwtio nifer fawr o aelodau. Mae dau gant a thri deg o bobl yn aelodau o FoCR ac mae tua hanner y rhain wedi cofrestru ar y system rheoli gwirfoddolwyr, ac mae 70 o bobl wedi cymryd rhan mewn o leiaf un gweithgaredd gwirfoddoli. Mae'r gwirfoddolwyr yn dewis cymryd rhan mewn gweithgareddau a hysbyseb ar TeamKinetic (y system rheoli gwirfoddolwyr) a gallant gofnodi eu horiau i weld faint o oriau gwirfoddoli a gwblhawyd. Ar adeg cynnal y cyfweiliadau ar gyfer yr astudiaeth hon, yn ystod haf 2023, cyn agoriad swyddogol y safle, roedd dros 900 awr o amser gwirfoddolwyr wedi cael ei gofnodi. Yn ôl un aelod o'r pwyllgor, mae llawer o fanteision i'r gwirfoddolwyr, gan gynnwys:

Rwy'n credu ei fod yn annog pobl i wneud mwy o ymarfer corff, dysgu mwy am natur, gwerthfawrogi'r amgylchedd, newid agweddau pobl am ddiogelu'r amgylchedd, am rywogaethau ac yn y blaen.

Aelod o'r pwyllgor

O ran cynlluniau'r dyfodol ar gyfer FoCR a'i weithgareddau, maent yn awyddus i gynnwys grwpiau pellach fel y Sgowntiaid, ysgolion lleol, a gweithio gyda grwpiau mwy ymylol fel ceiswyr lloches a ffoaduriaid, sydd wedi'u heithrio rhag chwilio am waith cyflogedig. Hyd yma, mae prosiectau amgylcheddol wedi bod ar flaen y gad o ran gweithgareddau'r FoCR oherwydd natur y prosiect ond, yn y dyfodol, mae cynlluniau ar y gweill i ehangu'r ystod o gyfleoedd, ac i gyfleoedd gwirfoddoli fod ar wahanol amseroedd er mwyn galluogi pobl sy'n gweithio yn ystod yr wythnos wirfoddoli hefyd.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwirfoddoli, a'r hyn sy'n cymell pobl i wirfoddoli

Cyflwynir yn y thema hon sut y bu cyfranogwyr yn ymwneud â gwirfoddoli a'u cymhellion dros wneud hynny. Roedd y cymhellion ar gyfer cymryd rhan yn cynnwys cysylltiadau ac atgofion o'r safle, diogelu natur a'r amgylchedd, cyfrannu at y gymuned, a gwneud cysylltiadau newydd.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwirfoddoli

Dysgodd nifer o'r gwirfoddolwyr am y cyfle i wirfoddoli drwy gylchlythyrau Dŵr Cymru neu drwy'r cyfryngau cymdeithasol, er enghraifft: "Rwy'n credu i mi glywed amdano am y tro cyntaf o gylchlythyr, efallai a ddaeth drwy'r drws" (Florence). O ganlyniad, roedd Dŵr Cymru a FoCR yn gallu estyn allan at gynulleidfaoedd a phobl newydd (h.y. nid dim ond pobl a oedd yn ymwneud â'r RAG yn flaenorol). Yn wir, nid oedd rhai erioed wedi clywed am y safle nac wedi bod i'r safle er eu bod yn byw'n lleol. Arweiniodd hyn at gymysgedd o bobl ag atgofion o ymgyrchu'r RAG, ond hefyd unigolion a oedd yn creu cysylltiadau ac atgofion newydd sbon gyda'r safle. Roedd y gwirfoddolwyr yn frwdfrydig ac yn angerddol iawn, a chymerodd llawer o gyfranogwyr ran mewn gweithgareddau gwirfoddoli ac ymgyrchu amgylcheddol eraill mewn lleoedd eraill.

Rwy'n gwneud llawer o waith gwirfoddol, rwy'n perthyn i erddi cymunedol, felly rwy'n gwirfoddoli yno yn fy hyb lleol, ac ymgyrch Achub y Dolydd ac Achub Parc Hailey, felly rwy'n gwneud llawer iawn o wirfoddoli ar hyn o bryd.

Janet

Rwy'n gwirfoddoli i sefydliadau gwahanol... Rwy'n gwirfoddoli i Coed Cadw, yn benodol y rhestr o goed hynafol. Rydych chi'n mynd allan ac yn chwilio am goed hynafol, ac yna rydych chi'n eu cofnodi er mwyn eu diogelu. Rydw i hefyd yn gweithio yn Fferm y Fforest gyda Coed Caerdydd, sef y fenter plannu coed.

Florence

I un gwirfoddolwr sydd wedi ymddeol, roedd yn gyfle i wneud rhywbeth yn hytrach nag aros gartref:

"Ond fy rhesymeg i oedd ... yn hytrach na bod wedi ymddeol ac eistedd ar ben fy hun gartref a gwneud dim byd, rydw i eisiau gwneud rhywbeth."

Ray

Cymhelliant dros wirfoddoli

Atgofion a chysylltiadau â Chronfeydd Dŵr Llys-faen a Llanisien

Roedd y cysylltiad â'r gofod glas a gwyrdd yn glir i'r ymchwilwyr ac roedd yn ymddangos yn ysgogiad cryf i'r cyfranogwyr, er nad oedd wedi'i fynegi'n glir. Roedd dau gyfranogwr yn byw'n agos iawn at safle'r gronfa ddŵr ac yn rhannu atgofion am yr amser a dreuliodd yno:

Lle hyfryd i gerdded gyda'r plant, roedd yn dawel. Ac rwy'n cofio dod o hyd i degeirian gwenyn yn y maes parcio. A rhai planhigion prin iawn mewn gwirionedd. Ac

rwyf wrth fy modd â'r capiau cwyr hyn. Ar fy mhen fy hun, doedd neb yno i ddweud wrtha i, ond roeddwn i'n gwybod beth oedden nhw.

Eliza

Roedd yn lle hyfryd i fyw ... roedd y gronfa ddŵr yn rhan o'n bywydau o'r cychwyn cyntaf...

Janet

Yn ogystal, nododd y cyfranogwyr yr agwedd ymarferol o wirfoddoli mewn cronfa ddŵr sy'n agos at eu cartrefi. Cydnabuwyd ei bod yn braf peidio â gorfod teithio na dibynnu ar gar i fynychu'r sesiynau.

Diogelu natur a'r amgylchedd

Siaradodd y gwirfoddolwyr am awydd i warchod yr amgylchedd, ac yn achos Florence, cafodd ei hysgogi i wirfoddoli i gyfrannu at ddiogelu safle'r gronfa ddŵr ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol: *"Ond mae gen i ddiddordeb yn yr amgylchedd ac ecoleg. Fe wnes i radd baglor yn 2019 mewn Gwyddorau Naturiol. Ac rydw i'n dechrau gradd Meistr yn [mae enw'r Brifysgol wedi'i olygu at ddiben anhysbysrwydd], mewn bioamrywiaeth, bywyd gwyllt ac iechyd ecosystemau."* Florence

Cyfrannu at y gymuned leol a gwneud rhywbeth buddiol

Gwirfoddolodd y cyfranogwyr am eu bod eisiau gwneud rhywbeth buddiol i'r gymuned leol: *"Rwy'n hoffi gwneud pethau sy'n cynnwys eich cymuned leol ... cymryd rhan mewn pethau defnyddiol ... cyfrannu at strwythur cymdeithasol ardal"* (Adam). Ar ben hynny, roedd arwyddocâd diwylliannol a hanes y safle yn ysgogi un cyfranogwr:

Wel, dwi'n meddwl bod yna bwysau ... diwylliannol. Mae cyfrifoldeb ynghlwm â'r hanes hwnnw i wneud i hyn weithio fel prosiect. Ac mae'r ffaith bod Dŵr Cymru yn ei weld fel cynllun peilot o ran sut i gyfrannu ar lefel gymunedol, ac o ran eu gwaith gwirfoddol ar rai o'u safleoedd eraill hefyd, yn gwneud i'r prosiect deimlo'n eithaf pwysig, gan ei fod wir yn gwneud rhywbeth a allai drosglwyddo'n ehangach.

Aelod o'r pwyllgor

Creu cysylltiadau newydd, gan gynnwys yn ystod ymddeoliad

Soniodd gwirfoddolwyr am sut yr oedd eu hymddeoliad wedi rhoi'r amser iddynt ddilyn naill ai eu hobiau presennol, neu ddiddordebau newydd. Denwyd Ray at newydd-deb y gweithgareddau ond hefyd, yn ddiweddarach yn y sesiwn, adlewyrchodd ei bod hi'n bwysig cynnal hunan-barch a hyder ar ôl ymddeol, a gall gwirfoddoli fod yn ffactor pwysig wrth hwyluso hynny:

Roeddwn i'n awyddus i wirfoddoli, ac roeddwn i'n gwybod bod hynny ar y gorwel. Mae'r gronfa ddŵr tua 10 munud i ffwrdd ar droed, felly meddyliais, 'o, dydw i erioed wedi gwneud hynny o'r blaen'.

Mae cyd-destun o ran beth sy'n digwydd ar ôl ymddeol, oherwydd i mi, rydych chi'n gorffen gweithio'n llawn amser, ac mae gennych chi'r holl hyder hwnnw o weithio'n llawn amser, felly a ydych chi'n ymddeol ac yna'n stopio, neu'n dechrau gwneud rhywbeth hollol wahanol? Ydych chi'n defnyddio rhywfaint o'r hyn sydd gennych chi eisoes, ac yn symud i'r cyfnod cyntaf hwnnw o ymddeol, neu a ydych chi'n stopio ac yn gwneud dim byd? Ac i mi, rwy'n dysgu sut i ymddeol, ac mae gwirfoddoli yn un opsiwn allan o hynny. A oes gennym yr un hunan-werth? Ydych chi'n creu hunan-werth newydd?

Ray

Mae Adam hefyd yn sôn am wneud cysylltiadau newydd a bod yn rhan o'i gymuned leol, ond mae'n dangos bod gan bobl sawl rheswm dros wirfoddoli, yn hytrach nag un nod penodol. Yma, mae'n siarad am gyfleoedd addysgol sy'n apelio ato fel athro:

Ac wrth gwrs, rwy'n ymwybodol o'r ffaith y byddaf yn byw yn yr ardal pan fydda i'n ymddeol. Ac oherwydd bod yr amgylchedd yn bwysig i mi, yn ogystal â'r cyfleoedd addysgol yn y ganolfan maen nhw'n adeiladu yno, ac roedd hynny'n apelio ataf fi hefyd.

Adam

Gweithgareddau

Roedd y rhai a gymerodd ran yn yr astudiaeth wedi cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys cadwraeth, ecoleg a gwaith rheoli tir, sesiynau gwybodaeth (e.e. adnabod coed, cyfrif ffyngau cap cwyr) a hyfforddiant fel Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl.

Dechreuais drwy gyfri'r ffyngau cap cwyr gyda'r ecolegydd, ac yna dechreuais dorri'r gwyrddni, cribinio'r glaswellt, codi waliau cerrig sych...

Ray

Ar ben hynny, cynhaliwyd sesiynau gwybodaeth ac addysg, yn ogystal â sesiynau ymarferol megis adeiladu strwythurau ar gyfer y safle, megis waliau cerrig sych:

Rydw i wedi codi waliau cerrig sych, a rhywfaint o waith clirio o amgylch y pyllau. Roedd yn rhaid i ni glirio coed helyg ac yna ... es i sesiwn oedd yn ymwneud ag adnabod coed, ond nid oedd yn ymwneud mewn gwirionedd â gwneud unrhyw beth felly, rwy'n meddwl bod [cynlluniau] i uwchsgilio gwirfoddolwyr felly pan fyddan nhw'n agor y cyfleuster yn y pen draw, byddwn ni'n gallu arwain aelodau a'r cyhoedd o gwmpas neu beth bynnag.

Adam



Ffigur 10 – Y gronfa ddŵr heddiw, a gymerwyd ym mis Gorffennaf 2023, a ffigur 11 – Gwirfoddolwyr yn adeiladu wal gerrig sych ar y safle. Rhannwyd y delweddau gan Gyfeillion Cronfeydd Dŵr Caerdydd.

Roedd un cyfranogwr hefyd yn rhoi clod i Dŵr Cymru am yr hyfforddiant codi a chario priodol o ansawdd da ar gyfer gwirfoddolwyr, nad oedd wedi'i brofi wrth wirfoddoli ar safleoedd eraill gyda mudiadau eraill.

Cynhaliwyd rhai gweithgareddau dros sawl sesiwn, er enghraifft, adeiladu'r gwesty trychfilod, tra roedd eraill yn sesiynau un-tro yn unig. Mwynhaodd y cyfranogwyr y sesiynau a'r strwythurau a grëwyd ganddynt, gyda rhai ohonynt yn darparu profiadau a gwybodaeth newydd am yr ecoleg leol iddynt:

Roedd yr holl beth wedi'i gynllunio'n iawn. Nid oeddwn yn gwybod beth oedd gwesty trychfilod cyn hyn. Fe'i dyluniwyd o ran y gwahanol ddeunyddiau a'r gwahanol haenau, er mwyn denu gwahanol anifeiliaid a beth bynnag. Ond ymdrech tîm oedd hynny, felly roedd pobl yn diflannu ... ac yn dod yn ôl wythnos arall i'w adeiladu. Ac rydych chi'n meddwl 'wow, roedd hynny'n hollol wych'.

Ray

Mae gweithgareddau gwirfoddoli yn y dyfodol yn cael eu cynllunio ac mae bwriad i wirfoddolwyr FoCR groesawu ymwelwyr i'r safle fel llysgenhadon, a pharhau i gefnogi'r seilwaith ecolegol ar y safle, fel adeiladu strwythur ar gyfer adar.

Profiadau a manteision gwirfoddoli

Profiadau

Cofiodd rhai o'r cyfranogwyr brofiadau da mewn perthynas â'u gwirfoddoli, yn ymwneud â'r gweithgareddau a nodir uchod. Ar ben hynny, teimlwyd bod Dŵr Cymru yn cydnabod bod gwirfoddoli a gweithredu cymunedol yn werthfawr ac yn ganlyniad i'r prosiect, yn ogystal â chwblhau'r gweithgareddau a'r tasgau pwysig y mae'r gwirfoddolwyr yn eu gwneud yn eu sesiynau. Roedd cydnabyddiaeth bod gan Dŵr Cymru'r adnoddau i roi llawer o'r tasgau hyn ar gontract allanol ond bod ganddynt ymrwymiad i'r gymuned leol gyfrannu at, a chwarae rhan ar y safle:

Felly, y gwirfoddolwyr yw'r eisin ar y gacen, fel petai. Rwy'n credu weithiau bod yr ymdrech o annog gwirfoddoli a denu pobl i gymryd rhan yr un mor bwysig â'r achos ei hun. Gallent dalu contractwr i wneud rhywfaint o hyn, ond mae'n ymwneud â'r gymuned a chael pobl i gymryd rhan. Ie, cysylltu pobl â'r gronfa ddŵr.

Aelod o'r pwyllgor

Manteision

Nodwyd nifer o fanteision o gymryd rhan mewn gwirfoddoli, gan gynnwys iechyd corfforol a meddyliol, ymdeimlad o gyflawniad a phositifrwydd, rhoi cysylltiad lleol i bobl, cyfle i fynd allan yn yr awyr agored, a dysgu a rhannu profiadau newydd.

Iechyd corfforol ac iechyd meddwl

Dywedodd Ray fod codi waliau cerrig sych (a oedd yn gofyn am waith codi a chario) wedi ei helpu i fagu nerth yn ei gefn, ac mae'n egluro y gallai gwirfoddoli yn yr awyr agored yn y gronfa ddŵr helpu pobl eraill i gynnal eu hiechyd corfforol drwy weithgareddau awyr agored pleserus:

Fe wnaeth helpu fy nghefn. Rydw i'n hoffi chwaraeon ac yn eithaf egniol beth bynnag. Gyda'r wal gerrig sych, aeth drwy nifer o gamau, bu'n rhaid i ni ddod o hyd i'r cerrig, symud y cerrig, ac roedd hyn dros nifer o sesiynau, ac wedyn yn y pen draw fe gawsom ni gyfle i adeiladu'r wal. Felly daethoch i wybod popeth am logisteg sut i ddechrau adeiladu wal a pharatoi ar ei chyfer. Ond roedd y ffaith eich bod wedi cael adeiladu'r wal, ac roeddech chi'n gweithio arni am 8 awr, roeddech chi wedi eich gorlethu ac roeddech chi wir yn gwerthfawrogi faint o ymdrech oedd yn gysylltiedig ag adeiladu rhywbeth fel hynny. Codi am 8 y bore a mynd allan am ychydig o oriau i dorri tyfiant ac mae'r niwl ar ben y dŵr ac mae'r adar ar y dŵr ac rydych chi'n meddwl 'Mae hyn yn hyfryd. Teimlad braf'.

Ray

Roedd manteision iechyd meddwl o wirfoddoli yn rhoi ymdeimlad o gyflawniad a theimlad cadarnhaol i bobl, er enghraifft mae Florence yn nodi bod treulio amser mewn man gwyrdd a glas yn cyfrannu at y teimladau hyn ac yn rhoi ymdeimlad o gyflawniad drwy gyfrannu at rywbeth:

Nid dim ond y manteision corfforol, ond y manteision meddyliol. Dwi'n meddwl eich bod chi'n deall hynny... rydw i'n mwynhau bod allan ym myd natur beth bynnag, ond pan fyddwch chi'n gorffen sesiwn, rydych chi'n cael yr ymdeimlad hwnnw o gyflawniad, yr ymdeimlad eich bod chi wedi cyfrannu at rywbeth, rydych chi wedi gwneud gwahaniaeth, ac mae hynny'n gadarnhaol, yn feddyliol.

Mae'n ymhelaethu ymhellach bod cymryd rhan yn y gweithgareddau a rhannu ei phrofiadau â phobl eraill nad ydynt yn wirfoddolwyr gyda FoCR yn rhoi ymdeimlad o falchder iddi, ac yn rhywbeth i siarad amdano gyda nhw sydd o ddiddordeb:

Ac i ymfalchïo mewn rhywbeth nad yw llawer o bobl yn gwybod dim amdano. Mae pobl yn gofyn 'beth rydych chi wedi'i wneud dros y penwythnos?', ac rydych chi'n dweud, 'Rydw i wedi adeiladu wal gerrig sych ac maen nhw'n gofyn 'ble rydych chi wedi gwneud hynny?' ac rydych chi'n dweud wrthyn nhw am y gronfa ddŵr a dydy pobl ddim hyd yn oed yn gwybod ei bod yno.

Florence

Teimlad o gysylltiad lleol

Esboniodd y cyfranogwyr sut roedd gwirfoddoli yn y cronfeydd dŵr wedi rhoi cyfle iddynt ymgysylltu mwy â phobl leol, a oedd yn ymwneud â gwahanol fathau o gysylltiadau ar gyfer gwahanol bobl. Roedd y cysylltiadau hyn yn cynnwys:

1. Teimlad o gysylltiad â'r gymuned – “Cysylltiad â'ch cymuned, a theimlo eich bod yn perthyn i ardal drwy gyfrannu. Rwy'n credu bod hynny'n bwysig iawn, ac rwy'n meddwl bod hynny'n wirioneddol ar goll o lawer o agweddau ar gymdeithas ac rwy'n credu bod gwirfoddoli wir yn rhoi cyfle i deimlo cysylltiad â'r bobl yn eich ardal leol.” Florence
2. Cysylltu â phobl sydd â phrofiadau bywyd gwahanol:

...trwy wneud gwaith gwirfoddol rydych chi'n cael y cyfle i gwrdd â phob math o bobl o bob math o wahanol gefndiroedd. ...Rydych chi'n gadael y byd proffesiynol, ac rydych chi'n dod i wybod beth mae pobl eraill yn ei wneud, ac mae hynny wedi bod yn rhan bwysig iawn o'r holl brofiadau gwirfoddoli rydw i wedi'u gwneud mewn gwirionedd...

...mae'n ymwneud yn fwy â chwrdd â phobl... fe wnes i siarad â [enw wedi'i olygu] am yr hyn roedd wedi'i wneud yn y gwaith dur... A doedd dim syniad gyda fi am unrhyw beth felly, ac fe wnes i ddysgu pethau o'r sgwrs fer honno gyda [enw wedi'i olygu] ac mae hynny'n cyfoethogi eich bywyd.

Adam

...ers i mi ymddeol, rwy'n meddwl eich bod yn gweld eisiau cymysgu gyda phobl, wyddoch chi, roeddech chi'n arfer bod gyda phobl yn y gwaith. Felly rwy'n meddwl ei fod yn ffordd o wneud yr hyn rwy'n ei fwynhau, yn ogystal â chwrdd â phobl eraill a phobl ddiddorol iawn, oherwydd rydych chi'n cael pobl o bob math o gefndiroedd ac oedrannau yn gwirfoddoli.

Florence

3. Cysylltu pobl (aelod o staff Dŵr Cymru) sy'n rhannu'r un hobi: "... buddiant anweledig a rhyfeddol i mi yw fy mod i'n dröwr pren ac, fe ddaeth i'r amlwg bod un o'r wardeiniaid [enw wedi'i olygu] yn arfer gwneud gwaith derw gwyrdd pan oedd yn iau, ac mae'r ddau ohonom wedi cael llwythi o foncyffion ... ac mae ein gwagedd wedi bygwth ein hysgaru oni bai ein bod ni'n symud ein boncyffion gwyrdd, a dywedais " mae gen i lond garej o foncyffion', felly rydym ni wedi bod yn cyfnewid boncyffion. Pa mor drist yw hynny? Ond ni fyddai erioed wedi digwydd fel arall."

Ray

Yr awyr agored

Roedd un gwirfoddolwr yn cydnabod bod gallu treulio amser yn yr awyr agored yn gadarnhaol o ran llesiant a'r cyfle i ryngweithio'n gymdeithasol:

Rydw i wrth fy modd yn yr awyr agored. Dim ond yr awyr iach. Yn mwynhau'r amgylchedd. Ac wrth gwrs, yr ochr gymdeithasol hefyd, gwirfoddoli, felly does dim ots gen i, cyn belled â bod gennych chi'r dillad iawn, does dim ots am y tywydd...

Florence

Yn ogystal, nodwyd bod y gofod glas, y gronfa ddŵr, yn rhoi ymdeimlad o dawelwch a heddwch i bobl: "Yn enwedig pan fyddwch chi'n sefyll yn y gronfa ddŵr, mae'n llonydd ac yn dawel ac nid oes sŵn traffig, does dim byd, ac mae'n wych, mae'n lle tawel iawn." Eliza

Roedd tystiolaeth hefyd bod pobl yn teimlo eu bod yn cysylltu â natur wrth wirfoddoli yn yr awyr agored, a oedd yn fuddiol: "Yn fy marn i, dylai pobl dreulio mwy o amser yn yr awyr agored ... Rydych chi'n rhan o'r amgylchedd a phan fyddwch chi'n camu i le naturiol rydych chi'n teimlo cysylltiad â'r amgylchedd a'r holl bethau ynddo, yr anifeiliaid a'r planhigion, ac mae hynny'n hyfryd iawn ... Wrth i ni ddod yn fwy a mwy trefol... rydym ni'n colli hynny ac rwy'n meddwl bod hynny'n effeithio ar ieuchyd meddwl pobl." Adam

Dywedodd cyfranogwr arall, yn ogystal â gwerthfawrogi bod i ffwrdd wrth ei ddesg, fod gwirfoddoli yn yr awyr agored yn gyfle i wneud gweithgaredd a oedd yn debyg i'w ddiddordebau na allai eu dilyn drwy gyflogaeth â thâl: "...Ceisiais wneud waith coed i gwmnïau cwmpo coed a phethau felly, ond dydw i ddim yn gymwys [nid oes ganddo gymwysterau i wneud hynny], felly dyma'r peth gorau i fi." Ray

Dysgu gwybodaeth a sgiliau newydd a rhannu ag eraill

Roedd tystiolaeth gan y cyfranogwyr bod gwirfoddoli wedi caniatáu iddynt uwchsgilio mewn meysydd newydd, gan gynnwys rhai meysydd nad ydynt yn hyderus ynddynt:

Mae codi walïau sych yn waith sy'n gorfforol anodd, ac nid yw'n rhywbeth y byddai gen i ddiddordeb ynddo fel arfer. Ond roeddwn i wir yn ei fwynhau ... Felly, mae'n ddiddorol iawn uwchsgilio fy hun yn y mathau hynny o feysydd hefyd.

Adam

Yn ogystal â dysgu sgiliau'n uniongyrchol o'r hyfforddiant, roedd y cyfranogwyr hefyd yn mwynhau rhannu eu profiadau a'u gwybodaeth gyda'u cyd-wirfoddolwyr, a bod hyn yn creu rhyw fath o rwydwaith cymdeithasol iddynt:

Ac mae'n eich gwneud yn ymwybodol o gyfleoedd gwirfoddoli eraill y gallech chi gymryd rhan ynddynt... ac mae llawer o'r gwirfoddolwyr rydych chi'n cwrdd â nhw yn aml yn gwirfoddoli mewn llefydd eraill, felly efallai bod cynllun gwirfoddoli nad ydych

chi'n ymwybodol ohono a allai fod o ddiddordeb i chi, felly mewn ffordd mae'n rhyw fath o rwydwaith...

Ray

Roeddent hefyd yn mwynhau rhannu eu gwybodaeth am natur gyda'u ffrindiau a'u teuluoedd:

"Roeddwn i'n diflasu fy mhartner o ran adnabod coed... na, doeddwn i ddim yn ei diflasu hi, mae ganddi hi gryn ddiddordeb mewn gwirionedd..." Adam

Roedd gwirfoddolwyr hefyd yn gweithredu fel hyrwyddwyr y FoCR drwy rannu eu profiadau o wirfoddoli ac o'r safle, yn y gobaith o godi mwy o ymwybyddiaeth ac annog mwy o bobl i wirfoddoli:

A dyna'r peth da hefyd, dyfalu beth rydych chi wedi'i wneud, mae'n gwneud mwy o bobl yn ymwybodol, ac efallai y bydd yn annog pobl eraill i wirfoddoli hefyd, felly mae'n gadarnhaol.

Florence

Canfyddiadau gwirfoddolwyr am y system rheoli gwirfoddoli

Siaradodd pawb heblaw un cyfranogwr yn gadarnhaol am y system rheoli gwirfoddoli o ran ystod y gweithgareddau, cyfathrebu gyda'r Rheolwr Gwirfoddoli a hwylustod defnyddio'r meddalwedd. Nid oedd un cyfranogwr wedi dechrau defnyddio'r system reoli eto, sef TeamKinetic, a mynegodd bryder ynghylch ei gallu i ddefnyddio'r system ar-lein.

Dywedodd un cyfranogwr, Florence, ei bod yn ddefnyddiol arddangos amrywiaeth o weithgareddau ar y system wirfoddoli gan y gallai ddewis rhai a oedd yn addas iddi, yn enwedig wrth iddi fyw gydag anaf sy'n cyfyngu ar ei gallu i wneud gwaith corfforol. Disgrifiodd Ray pa mor hawdd oedd y system wirfoddoli; *"Drwy glicio botwm, gallwch fewngofnodi"*, gan ganmol y cyfathrebu â staff Dŵr Cymru drwy'r system; *"Does dim trafferthion, mae'r cyfathrebu'n gwbl wych"*.

Un maes y soniodd Adam amdano y gellid ei wella fyddai cael dull cyfathrebu rhwng gwirfoddolwyr, gan nad yw system Kinetic yn caniatáu ar gyfer hyn. Byddai hynny'n caniatáu mwy o ryngweithio cymdeithasol a thrafodaeth ymysg pobl sydd wedi meithrin cysylltiadau: *"gallai rhai pobl elwa o allu meithrin cysylltiadau cymdeithasol drwy'r system, a thrwy wybod pwy sy'n mynd i fod yno"*.

Fodd bynnag, roedd yn ymddangos bod rhywfaint o ddiffyg eglurder o ran y rolau gwirfoddoli, a rolau pwyllgor FoCR, Dŵr Cymru, a'r RAG. Roedd y cyfranogwyr yn ymddangos yn aneglur i raddau helaeth ynghylch rôl pwyllgor grŵp Cyfeillion Cronfeydd Dŵr Caerdydd yn y broses wirfoddoli a sefydlwyd, ac roedd un cyfranogwr yn cysylltu ei weithgarwch gwirfoddoli presennol â Dŵr Cymru a system Kinetic yn unig. Roedd rhywfaint o ddryswch hefyd ynghylch a oedd yn rhaid i chi fod yn aelod o Gyfeillion Cronfeydd Dŵr Caerdydd er mwyn gallu gwirfoddoli.

Crynodeb o'r Canfyddiadau

Daw'r canfyddiadau allweddol canlynol i'r amlwg mewn perthynas â thri amcan yr astudiaeth:

Amcan 1: Ymchwilio i rôl Dŵr Cymru o ran cefnogi hanes cymdeithasol a diwylliannol – archwilio pwysigrwydd ac arwyddocâd cymdeithasol a diwylliannol y cronfeydd dŵr fel man gwyrdd, ardal gwarchod ar gyfer fflora a ffawna, a safle treftadaeth ar gyfer ysgolion, cymunedau ac ymwelwyr, a rôl prosiectau Dŵr Cymru i alluogi hyn.

Crynodeb o ganfyddiadau Amcan 1:

- Mae'r Prosiect Coetiroedd Cymunedol wedi cael effeithiau cadarnhaol a pharhaol ar y mannau gwyrdd a bioamrywiaeth, fel cael gwared ar rywogaethau goresgynnol ac adfer pwll dŵr.
- Mae'r canlyniadau amgylcheddol cadarnhaol wedi cael eu gwella drwy weithredu cymunedol, er enghraifft drwy gefnogi'r gwaith o glirio tir.
- Mae Dŵr Cymru wedi datblygu a chyflwyno rhaglen ymgysylltu â'r gymuned a gwirfoddolwyr effeithiol a phoblogaidd. Mae tystiolaeth bod hyn yn dylanwadu ar arferion ehangach Dŵr Cymru mewn safleoedd eraill ledled Cymru.
- Mae gweithio mewn partneriaeth â chymunedau a sefydliadau lleol yn cael ei weld fel rhywbeth cadarnhaol gan staff Dŵr Cymru. Er enghraifft, roedd gweithwyr yn gweld manteision ecolegol gweithio gydag Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru, a manteision iechyd a lles rhaglenni fel datblygu Llwybr Stori wrth weithio gyda'r awdurdod lleol a'r brifysgol lleol. Yn ogystal, soniodd cyfranogwyr am weld gwerth cynnwys pobl a chefnogi eu datblygiad personol.
- Mae gweithgareddau Dŵr Cymru yng Nghronfa Ddŵr Llys-faen a Llanisien wedi sicrhau manteision iechyd a lles i wirfoddolwyr ar y safle. Rhagwelir y bydd gweithgareddau yn y dyfodol ar y safle (e.e. gweithgareddau hamdden a rhagnodi cymdeithasol) yn cyfrannu ymhellach at iechyd a lles y gymuned leol ac ymwelwyr.
- Mae'r cyfleoedd gwirfoddoli, y rhaglen addysg a'r ymgysylltu â grwpiau lleol, ynghyd â gwelliannau amgylcheddol ar y safle, yn cyd-fynd ag egwyddorion [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#), gan gynnwys '[Cymru Iachach](#)', '[Cymru o Gymunedau Cydlynus](#)' a '[Cymru sy'n Gyfrifol ar lefel Fyd-eang](#)'

Amcan 2: Archwilio a deall y mudiad cyfunol – casglu profiadau byw aelodau'r Grŵp Gweithredu dros y Gronfa (RAG) a oedd yn ymwneud â chynhaliadau y gronfa ddŵr rhwng 2001 a 2015.

Crynodeb o ganfyddiadau Amcan 2:

- Mae gan yr ymgyrchwyr gysylltiadau emosiynol cryf â Chronfa Ddŵr Llys-faen a Llanisien yn seiliedig ar atgofion a hanesion personol.
- Roedd ymdeimlad ffyrnig o gyfiawnder yn cymhell y grŵp.
- Roedd ymgyrch y RAG yn strategol iawn ac roedd aelodau craidd y pwyllgor yn unigolion medrus a gwybodus.
- Cafodd gweithgareddau'r RAG gefnogaeth leol gref gan y cyhoedd, y cyfryngau lleol a gwleidyddion lleol.
- Mae llwyddiant yr ymgyrch yn golygu dyfodol newydd i'r cronfeydd dŵr ac i genedlaethau fwynhau'r gofod.

Amcan 3: Archwilio gwirfoddoli - deall profiadau, cymhellion a chanlyniadau gwirfoddolwyr sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau a hwylusir gan Gyfeillion Cronfeydd Dŵr Caerdydd (FoCR), a sefydlwyd yn 2021.

Crynodeb o ganfyddiadau Amcan 3:

- Mae FoCR yn sefydliad annibynnol sy'n cydweithio â Dŵr Cymru i ddarparu amrywiaeth o weithgareddau a chyfleoedd i wirfoddolwyr.

- Mae FoCR yn gweithio gyda Dŵr Cymru i gefnogi bioamrywiaeth ac estheteg Cronfeydd Dŵr Llys-faen a Llanisien, gan gynnwys ymgymryd â gweithgareddau cadwraeth ac addysg.
- Roedd y cymhellion ar gyfer gwirfoddoli yn cynnwys: llesiant personol (mwynhau'r awyr agored, chwilio am heriau newydd ar ôl ymddeol), llesiant cymdeithasol (chwilio am gysylltiadau), a chyflawni gwerthoedd personol (cyfrannu at gymdeithas, egwyddorion amgylcheddol).
- Mae gan wirfoddoli lawer o fanteision, gan gynnwys: lles corfforol a meddyliol, datblygu sgiliau newydd (gwybodaeth a dealltwriaeth), a chydlyniant cymunedol (cyfeillgarwch, meithrin hunaniaeth, ymdeimlad o falchder).

Casgliadau'r astudiaeth

Mae'r Grant Coetiroedd Cymunedol wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol pendant ac mae'n rhan o weithgareddau ehangach Dŵr Cymru sydd wedi bod o fudd i ecoleg leol a bioamrywiaeth, iechyd a llesiant gwirfoddolwyr, ac sy'n cyd-fynd ag egwyddorion Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol a Llesiant 2015.

Cafodd y canlyniadau cadarnhaol ar gyfer y coetiroedd a'r fflora a ffawna eu cyfoethogi drwy weithredu cymunedol. I gychwyn, gwnaed hyn drwy weithgareddau ymgyrchu'r RAG, ac yn fwy diweddar, gan wirfoddolwyr FoCR.

Mae Dŵr Cymru a'r RAG wedi dangos y gall grwpiau ymgyrchu a chwmnïau gydweithio i gyflawni canlyniadau ar y cyd. Er bod cymhlethdodau wedi bod yn hanes Cronfeydd Dŵr Llys-faen a Llanisien, mae tystiolaeth o barch ar y cyd gan y ddwy ochr at safle sydd â phwysigrwydd diwylliannol ac amgylcheddol, sy'n cyfrannu at les pobl leol a bioamrywiaeth yr amgylchedd.

Mae cydweithio i ddatblygu grŵp Cyfeillion Cronfeydd Dŵr Caerdydd wedi denu grŵp newydd o 'warcheidwaid' ar gyfer y safle. Roedd ymgyrch y RAG yn anferthol a dylid ei chofio a'i choffáu. Mae'r baton bellach wedi cael ei drosglwyddo i FoCR a bydd y grŵp yn parhau i gael effaith gadarnhaol ar gyfer y dyfodol.

Mae unigolion allweddol drwy gydol yr ymgyrch hon wedi bod yn hollbwysig i lwyddiant y rhaglen, gan gynnwys y RAG ar gyfer eu hymgyrch i achub y safle, ac yn fwy diweddar gweithwyr Dŵr Cymru, ac aelodau FoCR. Mae'n bwysig cydnabod bod holl weithwyr, ymgyrchwyr, gwirfoddolwyr a chefnogwyr Dŵr Cymru sydd wedi bod yn rhan o stori cronfa ddŵr Llys-faen a Llanisien wedi cyfrannu at faes pwysig o natur a fydd yn gwasanaethu cenedlaethau i ddod, ac a fydd, gobeithio, yn cael eu gwarchod ganddynt.

Argymhellion

Gwneir sawl argymhelliad yn seiliedig ar ganfyddiadau'r astudiaeth hon. Cyflwynir y rhain mewn dwy adran, un mewn perthynas â Dŵr Cymru a'u harferion gwaith, a'r ail mewn perthynas â gwirfoddoli ar safle'r gronfa ddŵr.

Argymhellion – mewn perthynas ag arferion Dŵr Cymru

1. Parhau i ddefnyddio egwyddorion datblygu cynaliadwy a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i lywio gweithgareddau yn y Strategaeth Bioamrywiaeth a gweithgareddau ehangach Dŵr Cymru.
2. Parhau i ddiogelu a gwella ecoleg leol y mannau glas a gwyrdd yn safleoedd Dŵr Cymru er budd iechyd a lles pobl, bioamrywiaeth ac iechyd y blaned.
3. Parhau i ymgysylltu â phartneriaid a sefydliadau lleol i gefnogi canlyniadau cynaliadwy ar gyfer ecoleg a bioamrywiaeth safleoedd Dŵr Cymru, ac i hwyluso cyfleoedd gwirfoddoli.
4. Parhau i ddarparu arweinyddiaeth gref ar gyfer rhaglenni uchelgeisiol a newydd.
5. Cynnwys ac ymgysylltu â chymunedau lleol, gan gynnwys cyd-greu lle bo hynny'n briodol.
6. Er mwyn ehangu cyrhaeddiad rhaglenni, parhau i ddefnyddio sgiliau a gwybodaeth leol sefydliadau lleol (fel yr Ymddiriedolaethau Bywyd Gwylt, prifysgolion lleol, partneriaid iechyd ac eraill).
7. Sicrhau bod cymorth gweithredol uwch ar gael i staff sy'n gweithio ar safleoedd i oresgyn rhwystrau er mwyn sicrhau bod prosiectau uchelgeisiol tebyg yn cael eu cyflawni'n llwyddiannus.
8. Cynnwys polisïau a chymau gweithredu sy'n cefnogi iechyd a lles staff a gwirfoddolwyr.

Argymhellion – mewn perthynas â gwirfoddoli a chyfleoedd yn y dyfodol yng Nghronfa Ddŵr Llys-faen a Llanisien

9. Sicrhau cyfleoedd gwirfoddoli teg a hygyrch i bobl leol.
10. Ystyried cynnig cyfleoedd gwirfoddoli ar wahanol adegau ac ar wahanol ddiwrnodau er mwyn galluogi cymaint o bobl leol â phosibl i ymgysylltu â'r safle a rôl y gwirfoddolwr.
11. Mynd ati'n rhagweithiol i ymgysylltu â grwpiau ymylol (e.e. y rheini o grwpiau economaidd-gymdeithasol is, neu sy'n wynebu rhwystrau oherwydd anabledau).
12. Mynd ar drywydd cyfleoedd i sefydlu cysylltiadau â phartneriaid iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a thrydydd sector lleol i ddatblygu, er enghraifft, cyfleoedd rhagnodi cymdeithasol (sy'n cael eu llywio gan y [Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Rhagnodi Cymdeithasol](#) sydd ar y gweill ledled Cymru).
13. Hyrwyddo hunaniaeth gymdeithasol ar y cyd ymysg gwirfoddolwyr i wella lles seico-gymdeithasol a chydlyniant cymunedol.
14. Cynnig cymorth a hyfforddiant i bobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol neu sy'n llai hyderus i ddefnyddio system / technoleg TeamKinetic.
15. Helpu gwirfoddolwyr i ryngweithio â'i gilydd er mwyn iddyn nhw allu cyfathrebu a gwneud cysylltiadau i greu rhwydwaith annibynnol, o bosibl drwy hyrwyddo'r swyddogaeth sgwrsio ar TeamKinetic.
16. Hyrwyddo FoCR i wella gwybodaeth, ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r grŵp a'i rôl, er mwyn ei hyrwyddo fel ased gwerthfawr i'r gymuned leol, ac i annog cyfranogiad pellach.
17. Parhau i goffáu a gwerthfawrogi'r ymgyrch lwyddiannus i achub y safle, gan y Grŵp Gweithredu dros y Gronfa.

Cyfeiriadau

Braun, V., & Clarke, V. (2019). Reflecting on reflexive thematic analysis. *Qualitative research in sport, exercise and health*, 11(4), 589-597. <https://uwe-repository.worktribe.com/index.php/preview/1493242/Reflecting%20on%20Reflexive%20TA%20Braun%20Clarke%20UWE%20Repository%20Version.pdf>



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd

cawr

Centre for Health, Activity
and Wellbeing Research

cyigll

Canolfan Ymchwil ar gyfer
Iechyd, Gweithgarwch a Lles

